

Ysgogwyr Newid

Gwella dealltwriaeth pobl ifanc o greu newid gwleidyddol a chymdeithasol yng Nghymru

Dr Donna Smith

Dr Jenny Hewitt

Tachwedd 2024

The Open University
Y Brifysgol Agored
Wales Cymru

The Open University
Open Societal Challenges

Change Makers

Cynnwys

Am yr awduron 4

Am y Brifysgol Agored 4

Am yr Heriau Cymdeithasol Agored 5

Cydnabyddiaethau 6

Cysylltiadau 6

Rhagair 7

Crynodeb gweithredol 9

Cyflwyniad 12

Methodoleg 14

Gosod y cyd-destun polisi 15

Patrymau cyfranogiad gwleidyddol yn y DU 15

Cyfranogiad ieuenctid yng Nghymru – beth yw'r darlun presennol? 17

Polisi ieuenctid Cymru, mentrau, a ble i fynd nesaf? 20

Tyrchu i'r data: canlyniadau'r arolwg 26

Canfyddiad allweddol yr arolwg 1 27

Canfyddiad allweddol yr arolwg 2 27

Canfyddiad allweddol yr arolwg 3 27

Canfyddiad allweddol yr arolwg 4 28

Canfyddiad allweddol yr arolwg 5 29

Canfyddiad allweddol yr arolwg 6 29

Canfyddiad allweddol yr arolwg 7 * 29

Gweithio gyda phobl ifanc 31

Canfyddiad y grŵp ffocws 1 31

Canfyddiad y grŵp ffocws 2 32

Canfyddiad y grŵp ffocws 3 33

Canfyddiad y grŵp ffocws 4 35

Canfyddiad y grŵp ffocws 5 36

Creu ein hadnodd addysgol 39

Cam 1 – dylunio'r wefan 39

Cam 2 – adborth datblygiadol 42

Cam 3 – y wefan derfynol 45

Cam 4 – y camau nesaf 50

Casgliadau, argymhellion a'r camau nesaf 52

Nodau Ysgogwyr Newid 52

Changemakers outcomes 53

Casgliadau ac argymhellion allweddol Ysgogwyr Newid 53

Camau nesaf Ysgogwyr Newid 55

Cyfeiriadau 58

Atodiad: cwestiynau'r arolwg 61

Am yr awduron

Mae Dr Donna Smith (prif awdur) yn Uwch-ddarlithydd Gwleidyddiaeth yn y Brifysgol Agored, yn Brif Gymrawd yr Academi Addysg Uwch, yn Gymrawd y Ganolfan Addysg Ar-lein ac o Bell, ac yn un o Ymddiriedolwyr y Gymdeithas Astudiaethau Gwleidyddol. Mae ei diddordebau ymchwil yn canolbwyntio ar wleidyddiaeth a'r cyfryngau, dinasyddiaeth weithgar, ac addysgu a dysgu. I gael rhagor o wybodaeth am Donna, ewch i http://www.open.ac.uk/people/dls288.

Mae Dr Jenny Hewitt (awdur a gyfrannodd) yn Gydymaith Ymchwil ôl-ddoethurol ym Mhrifysgol y Frenhines Mary, Llundain, ac yn Gydymaith Ymchwil/Addysgu ym Mhrifysgol Sussex. Mae ei diddordebau ymchwil yn canolbwyntio ar bobl ifanc, cymdeithaseg, gwleidyddiaeth, a 'gwleidyddiaeth gofal' a bywydau bob dydd.

Am y Brifysgol Agored

Sefydlwyd y Brifysgol Agored yn 1969, gyda'i myfyrwyr cyntaf yn cofrestru ym 1971. Mae'n arwain y byd o ran darparu cyfleoedd dysgu o bell arloesol a hyblyg ar lefel addysg uwch (AU). Mae'n agored i bobl, lleoedd, dulliau a syniadau. Mae'n hyrwyddo cyfle addysgol a chyfiawnder cymdeithasol drwy ddarparu addysg brifysgol o ansawdd uchel i bawb sy'n dymuno gwireddu eu huchelgais a chyflawni eu potensial.

Mae dros 15,500 o fyfyrwyr ledled Cymru yn astudio gyda'r Brifysgol Agored ar hyn o bryd. Mae myfyrwyr y Brifysgol Agored ym mhob un o etholaethau'r Senedd, a ni yw prif ddarparwr addysg uwch israddedig rhan-amser y genedl.

Mae bron i dri o bob pedwar myfyriwr y Brifysgol Agored mewn cyflogaeth yn ystod eu hastudiaethau, a gyda pholisi derbyn agored, nid oes angen unrhyw gymwysterau i astudio ar lefel gradd. Mae dros draean o'n myfyrwyr israddedig yng Nghymru yn ymuno â ni heb gymwysterau lefel mynediad safonol prifysgol.

Mae'r Brifysgol Agored yn gorfforedig gan Siarter Frenhinol (RC 000391), yn elusen sydd wedi'i heithrio yng Nghymru a Lloegr ac yn elusen sydd wedi'i chofrestru yn yr Alban (SC 038302). Mae'r Brifysgol Agored yn cael ei hawdurdodi a'i rheoleiddio gan yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol mewn perthynas â'i gweithgarwch eilaidd o fasnachu credyd.

I gael rhagor o wybodaeth am y Brifysgol Agored yng Nghymru, ewch i

www.open.ac.uk/wales.

Am yr Heriau Cymdeithasol Agored

Nod Rhaglen Heriau Cymdeithasol Agored y Brifysgol Agored yw mynd i'r afael â rhai o heriau cymdeithasol pwysicaf ein hoes drwy ymchwil ragorol sy'n cael ei gyrru gan effaith gan academyddion y Brifysgol Agored i drawsnewid bywydau a sbarduno newid cymdeithasol.

I gael rhagor o wybodaeth am Heriau Cymdeithasol Agored, ewch i https://research.open.ac.uk/societal-challenges.

Cydnabyddiaethau

Mae'r prosiect wedi gweithio gydag amrywiaeth o leisiau ifanc o Gymru i ddeall beth sydd ei angen arnynt i newid pethau yng Nghymru a'r DU. Hoffem ddiolch i Fforwm Ieuenctid Pafiliwn Grange a Gwasanaeth Ieuenctid Sir Benfro am eu holl amser, ymdrech a mewnbwn i'r gwaith hwn.

Diolch hefyd i dîm y Brifysgol Agored yng Nghymru, yn enwedig Helen Dare, Michelle Matheron, Dean George, a Cerith Rhys Jones, am eu holl waith caled ar y prosiect hwn.

Hefyd, cymuned academaidd ehangach y Brifysgol Agored am eu mewnbwn, eu hadborth a'u hymgynghoriad: Simon Usherwood, Dan Taylor, Thomas Martin, Philip Seargeant, a Bart Rienties. Hefyd, wrth gwrs, tîm Heriau Cymdeithasol Agored y Brifysgol Agored am eu cyllid a'u harweiniad.

Diolch hefyd i Family, Kids and Youth am eu gwaith ar yr arolwg allanol, a Stuff and Nonsense am ddylunio'r wefan.

Yn olaf, diolch i Jenny Hewitt, Cydymaith Ymchwil Ôl-ddoethurol blwyddyn gyntaf y prosiect Ysgogwyr Newid, am ei chyfraniad i'r ymchwil.

Cysylltiadau

I gael gwybod rhagor am Ysgogwyr Newid,

- E-bostiwch y Prif Ymchwilydd, Dr Donna Smith: donna.smith@open.ac.uk
- Ewch i wefan y prosiect: https://fass.open.ac.uk/research/projects/changemakers

Rhagair

Mae gwleidyddiaeth, y cyfryngau, a newid yn gyffredinol yn cyflymu. Yn y cyd-destun hwn, mae'n bosib ein bod yn wynebu nifer o ddylanwadau a dylanwadwyr sy'n tarfu. Mae'n bwysig felly ein bod ni i gyd yn perchnogi'r newid hwnnw rydym yn dymuno ei weld.

Mae newid yn golygu deall y materion sy'n ein heffeithio, bwy sy'n penderfynu ac yn meddu ar adnoddau, a sut i ymgyrchu'n effeithiol. Yn ei dro, mae hwn yn gwella ein bywydau ni a'r bobl o'n cwmpas.

Mae ymgyrchu'n effeithiol yn mynnu cydnabyddiaeth ein bod ni yn gallu arddel safbwyntiau gwahanol, a hyd yn oed cyferbyniol. Rhaid dysgu a rhoi gwerth ar y gallu i weld y byd trwy lygaid pobl eraill. Nawr yn fwy nag erioed, rhaid i bob un ohonom ddeall sut i barchu gwahaniaeth a'r hyn gallwn ei wneud i ddeall a dod o hyd i gyfamod.

Gan fod strwythurau llywodraeth ar bob lefel, o'r rhyngwladol i'r hyperleol, nawr mor gymhleth a chymysg, mae'n gallu bod yn anodd i ni wybod ble i ddechrau. Heb fodd o ddysgu, gallai hyn ddadymrymuso pobl o bob oed a phrofiad.

Ni allwn fforddio i bobl deimlo fel hyn. Mae angen mwy o leisiau yn ein gwleidyddiaeth, nid llai. Mwy o bobl yn arfer eu hawliau democrataidd ac yn defnyddio eu lleisiau, nid llai. Mwy o amrywiaeth o ran profiad a barn, nid llai.

Rwy'n falch iawn fod yr adroddiad ymchwil hwn, a gefnogwyd gan Heriau Cymdeithasol Agored y Brifysgol Agored a'r Brifysgol Agored yng Nghymru, yn cael ei gyhoeddi.

Mae'r gwaith hwn yn gyfraniad pwysig i'n dealltwriaeth o beth a sut mae pobl ifanc yn dymuno dysgu am ysgogi newid. Bydd yn cyfrannu at droi'r ddealltwriaeth honno'n adnoddau y gall pobl ifanc eu defnyddio i ddatblygu eu sgiliau, ac yn wir, dod yn ysgogwyr newid eu hunain.

Mae'r adnoddau hyn yn taflu goleuni ar rai enghreifftiau ardderchog o bobl ifanc yng Nghymru a thu hwnt sydd wedi mynnu cyfrifoldeb dros ysgogi newid, o fewn eu cymunedau eu hunain a thu hwnt iddynt. Gall yr rhain fod yn ysbrydoliaeth i bob un ohonom wrth inni geisio dilyn eu llwybr.

Hoffwn gofnodi fy niolch i'r sawl a gyfrannodd o'u hamser, eu barn, a'u profiadau i'r prosiect. Rwy'n llongyfarch fy nghydweithwyr academaidd ac yn y gwasanaethau proffesiynol am gyflawni'r gwaith at safon mor uchel.

Rwy'n annog gwneuthurwyr polisi, addysgwyr, a sefydliadau ieuenctid i ddarllen ac i weithredu ar eu canfyddiadau.

Ben Lewis

Cyfarwyddwr, Y Brifysgol Agored yng Nghymru

Crynodeb gweithredol

Mae ymchwil yn awgrymu bod pobl ifanc yn y DU yn fwy tebygol o fod yn anfodlon â democratiaeth ac yn llai tebygol o gymryd rhan mewn gwleidyddiaeth ffurfiol, fel pleidleisio ac ymuno â phlaid wleidyddol – er y gallant gymryd rhan mewn mathau eraill o fywyd gwleidyddol.

Mae addysg mewn gwleidyddiaeth, democratiaeth a dinasyddiaeth yn allweddol i ymgysylltu. Fodd bynnag, mae ymchwil hefyd yn awgrymu bod angen i bobl ifanc – ac oedolion – gael gwell sylfaen mewn addysg wleidyddol sy'n cefnogi eu penderfyniadau a'u hymgysylltiad.

Gan ddefnyddio dulliau cymysg a gweithio gyda dinasyddion ifanc 16-24 oed yng Nghymru, mae'r prosiect Ysgogwyr Newid yn archwilio'r hyn y mae pobl ifanc Cymru yn ei wybod am sefydliadau gwleidyddol y DU a chreu newid gwleidyddol a chymdeithasol, a'r math o adnodd(au) sydd eu hangen arnynt i wella eu dealltwriaeth.

Mae'r ymchwil wedi arwain at yr argymhellion canlynol:

- Mae ffocws ar wleidyddiaeth ffurfiol/ymgysylltu gwleidyddol yn bwysig i ymchwilwyr/sefydliadau sy'n gweithio ym maes dinasyddiaeth a democratiaeth, gan fod pobl ifanc yn llai tebygol o gymryd rhan mewn gwleidyddiaeth ffurfiol
- Byddai pob cwricwlwm yn y DU, gan gynnwys cwricwlwm Cymru, yn elwa o ffocws mwy penodol ar addysg wleidyddol a dinasyddiaeth weithgar/gweithredu gwleidyddol

- Mae angen ymestyn addysg dinasyddiaeth i gynnwys oedolion/y cyhoedd fel rhan o strategaeth wybodaeth gyhoeddus
- Mae'n hanfodol bod addysg dinasyddiaeth, boed yn yr ysgol neu ar ôl ysgol, yn ymdrin â sut mae strata amrywiol asiantaethau llywodraeth lleol, cenedlaethol a'r DU gyfan yn wahanol/yn effeithio ar fywydau bob dydd a phwy a beth sy'n gyfrifol am fynd i'r afael â phryderon gwleidyddol, yn ogystal ag adeiladwaith cymdeithasol-hanesyddol a diwylliannol o amgylch hyn, a sut mae pryderon gwleidyddol unigol yn cael eu deall a'u teimlo ar lefel leol, ddaearyddol
- Yn ogystal â'r angen i gynyddu dealltwriaeth o sut i greu newid gwleidyddol a chymdeithasol yn gyffredinol, mae angen penodol i gynyddu dealltwriaeth o rôl a gweithrediad seneddau datganoledig
- Mae adnoddau addysgol ar-lein yn hanfodol, a dylent gynnwys cyd-destun cymdeithasol-hanesyddol a gwleidyddol-gymdeithasol, gan gyflwyno'r cysylltiadau aml-haenog rhwng cenhedloedd y DU, a dehongli cymhlethdodau sefydliadau gwleidyddol unigol, gan ganolbwyntio ar newid gwleidyddol a chymdeithasol.

Yr hyn sy'n glir yw'r angen am fwy o eglurder i alluogi cenedlaethau'r dyfodol i gael eu trwytho mewn addysg wleidyddol sy'n cefnogi eu penderfyniadau a'u hymgysylltiad yn y dyfodol, ac ymchwil bellach i sefydlu ymdeimlad clir o'r hyn sy'n gyrru'r amharodrwydd i ymgysylltu'n gyson. Ochr yn ochr â symud tuag at ymgysylltu mae angen ymdeimlad cliriach o beth yw gwleidyddiaeth ddyddiol i bobl ifanc Cymru, a'r datgysylltiad rhwng profiadau bywyd bob dydd a gwleidyddiaeth ffurfiol.

Ochr yn ochr â'r argymhellion hyn, arweiniodd Ysgogwyr Newid hefyd at greu adnodd addysgol amlieithog (gwefan ryngweithiol) wedi'i hanelu at bobl ifanc rhwng 16 a 24 oed yng Nghymru. Bydd y wefan yn galluogi pobl ifanc Cymru i ddod yn ddinasyddion gweithgar drwy wella eu dealltwriaeth o sut i greu newid gwleidyddol a chymdeithasol yn y DU.

I gael rhagor o wybodaeth am nodau a chanlyniadau'r ymchwil, methodoleg, canfyddiadau, datblygiad y wefan, a chasgliadau, argymhellion a'r camau nesaf, parhewch i ddarllen.

Cyflwyniad

Mae 'Ysgogwyr Newid' yn brosiect Heriau Cymdeithasol Agored uchelgeisiol yn y Brifysgol Agored, sydd â'r nod o wella dealltwriaeth wleidyddol pobl ifanc 16-24 oed yn y DU, drwy ddatblygu adnodd(au) sy'n eu helpu i ddeall yn well sut i fod yn ddinasyddion gweithgar. Mae hyn yn bwysig, gan fod ymchwil yn dangos bod pobl ifanc yn fwy tebygol o fod yn anfodlon â democratiaeth ac yn llai tebygol o gymryd rhan mewn gwleidyddiaeth ffurfiol.

Dinasyddiaeth weithgar yw'r syniad y gall rhywun fod yn ddinesydd gwleidyddol gweithgar; gallant fynd ati i geisio creu newid (neu yn wir ei atal). Gallant fod yn 'ysgogwyr newid'. I wneud hynny, mae angen iddynt gael eu cymell i gymryd rhan yn ogystal â chael y wybodaeth ddiweddaraf am wleidyddiaeth, democratiaeth a sut mae cymdeithas yn gweithio. Datblygwyd y cysyniad o Ysgogwyr newid i fynd i'r afael â hyn.

Gan ganolbwyntio i ddechrau ar Gymru a phobl ifanc rhwng 16 a 24 oed yng Nghymru, mae'r prosiect Ysgogwyr Newid wedi defnyddio amrywiaeth o ddulliau ymchwil, fel arolygon ar-lein a grwpiau ffocws, i gofnodi sut mae pobl ifanc yn teimlo a beth maen nhw'n ei wybod am sefydliadau gwleidyddol y DU a newid gwleidyddol a chymdeithasol, a'r math o adnodd(au) sydd eu hangen arnynt i wella eu dealltwriaeth.

Bydd y prosiect hwn yn helpu llunwyr polisi, addysgwyr a sefydliadau ieuenctid i ddysgu am ffyrdd cost-effeithiol o gynyddu dealltwriaeth a chyfranogiad mewn gwleidyddiaeth pobl ifanc, gan alluogi gwneud penderfyniadau mwy cynrychioliadol.

Yn fwy cyffredinol, bydd y prosiect yn galluogi pobl ifanc i ddeall yn well sut y gallant ddod yn ddinasyddion gweithgar.

Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu prif ganfyddiadau'r ymchwil hyd yma, ac mae'n rhan bwysig o weithgarwch dinasyddiaeth weithredol y Brifysgol Agored yng Nghymru, gan weithio gyda sefydliadau partner yng Nghymru i ddeall barn, dealltwriaeth wleidyddol ac anghenion pobl ifanc Cymru.

I gael rhagor o wybodaeth am brosiect Ysgogwyr Newid, ewch i https://fass.open.ac.uk/research/projects/changemakers.

Nodau Ysgogwyr Newid

Bydd 'Ysgogwyr Newid' yn cynhyrchu adnodd(au) addysgol cadarn sy'n galluogi pobl ifanc (16-24) i ddod yn ddinasyddion gweithgar drwy wella eu dealltwriaeth o sut i greu newid gwleidyddol a chymdeithasol yn y DU

Cyflawnir hyn drwy ddatblygu adnodd(au) addysgol ar ôl addysg uwchradd/gorfodol

Bydd yr ymchwil yn canolbwyntio i ddechrau ar Gymru, gan weithio gyda dinasyddion ifanc Cymru a'r Brifysgol Agored yng Nghymru

Canlyniadau Ysgogwyr Newid

Galluogi pobl ifanc (16-24) i ddeall yn well sut i greu newid gwleidyddol a chymdeithasol yn y DU fel 'dinasyddion gweithgar'

Cael effaith gadarnhaol ar gyfranogiad gwleidyddol yn ddiweddarach fel oedolion o ganlyniad i'r uwchsgilio a'r ymgysylltu a gafodd ei feithrin

Helpu llunwyr polisïau ac addysgwyr i ddysgu ffyrdd cost-effeithiol o gynyddu dealltwriaeth a chyfranogiad mewn gwleidyddiaeth pobl ifanc. Creu mwy o gydlyniant cymdeithasol, ymgysylltiad dinesig, a galluogi gwneud penderfyniadau mwy cynrychioliadol

Dylanwadu ar ddatblygiad gwybodaeth am ddinasyddiaeth pobl ifanc ac addysg wleidyddol ar ôl addysg uwchradd/gorfodol

Methodoleg

Defnyddiwyd dulliau ymchwil cymysg i gasglu cymaint o wybodaeth gyfoethog â phosibl. Dyma'r prif weithgareddau ac amserlen:

Gwanwyn-haf 2023

Adolygiad o lenyddiaeth a pholisi, i ddeall y materion allweddol yng Nghymru a'r DU, gan ganolbwyntio ar batrymau cyfranogiad gwleidyddol yn y DU, y darlun presennol yng Nghymru, polisi addysg Cymru, a pholisi ymgysylltu democrataidd Cymru

Haf 2023-24

Arolwg ar-lein o bobl ifanc rhwng 16 a 24 oed yng Nghymru i asesu eu dealltwriaeth o sefydliadau gwleidyddol a sut mae creu newid gwleidyddol a chymdeithasol, yn ogystal â myfyrio ar adnoddau addysgol posibl i helpu i wella eu dealltwriaeth. Penderfynasom gynnwys pobl ifanc 16 ac 17 oed yn yr arolwg (a'r ymchwil yn gyffredinol) gan mai'r oedran pleidleisio yng Nghymru yw 16 (h.y. rydym yn tueddu i ddefnyddio'r ymadrodd 'pobl ifanc' yn hytrach nag 'oedolion ifanc' yn yr ymchwil). Cynhaliwyd tri arolwg:

- Arolwg cychwynnol ar-lein gyda myfyrwyr Prifysgol Agored Cymru, i brofi'r arolwg
- Arolwg ar-lein ar y cyfryngau cymdeithasol
- Arolwg ar-lein a gynhaliwyd gan gwmni marchnata allanol.

Hydref 2023

Dau grŵp ffocws gyda phobl ifanc 16-24 oed o Gymru i werthuso eu hymgysylltiad â chwrs OpenLearn a grëwyd eisoes, 'Cyflwyniad i greu newid gwleidyddol a chymdeithasol', gan roi adborth ar ei ddefnydd fel adnodd addysgol. Roedd hyn yn darparu gwybodaeth sylfaenol i helpu i ddylunio'r adnodd addysgol

Gaeaf 2023-gwanwyn 2024

datblygu'r adnodd addysgol drafft, yn seiliedig ar y grwpiau ffocws a'r arolygon. Roedd hyn yn cynnwys adborth pellach gan rai o'r bobl ifanc a ddaeth i grwpiau ffocws hydref 2023, gan ein galluogi i gasglu eu barn ar yr agweddau dylunio drafft

Gwanwyn-haf 2024

Cwblhau ein hadnodd addysgol

Gosod y cyd-destun polisi

Patrymau cyfranogiad gwleidyddol yn y DU

Mae patrymau ymddygiad gwleidyddol ieuenctid ledled y DU wedi denu sylw yn ystod y degawdau diwethaf, gan fod ymchwil i ymgysylltiad gwleidyddol – fel pleidleisio, aelodaeth o blaid wleidyddol, a chyfrifoldeb dinesig – yn aml yn awgrymu bod pobl ifanc yn troi oddi wrth brosesau gwleidyddol ffurfiol – a ddiffinnir fel cyfranogiad gwleidyddol sy'n gysylltiedig â sefydliadau (Naris, 2011; Furlong a Cartmel, 2012; Henn a Foard; 2012). Yn wir, mae ymchwil diweddar gan Dŷ'r Cyffredin yn dangos bod pobl ifanc yn y DU yn fwy tebygol o fod yn anfodlon â democratiaeth ac yn llai tebygol o gymryd rhan mewn gwleidyddiaeth ffurfiol, fel pleidleisio ac ymuno â phlaid wleidyddol – er y gallant gymryd rhan mewn mathau eraill o fywyd gwleidyddol (Uberoi a Johnston, 2022).

Mae ymchwil ddiweddar a gomisiynwyd gan y Sefydliad Materion Cymreig yn cyd-fynd â hyn, gan nodi 'bylchau gwybodaeth', sy'n amrywio yn ôl ansawdd yr addysg wleidyddol a dderbynnir yn yr ysgol a magwraeth mewn teulu sy'n buddsoddi mewn gwleidyddiaeth, fel y rhwystr mwyaf i bleidleisio yng Nghymru. Mae astudiaeth 'Codi Pontydd' y Sefydliad Materion Cymreig hefyd yn ychwanegu 'bod angen 'ennill calonnau a meddyliau' drwy roi pwyslais ar pam mae democratiaeth yn bwysig yn hytrach na dim ond beth ydyw' (Moore, 2023: 8). Yn wir, mae ymchwil yn awgrymu bod dod i gysylltiad ag addysg dinasyddiaeth neu addysg 'ddinesig' yn cael effaith ar ddinasyddiaeth o ymgysylltu (Weinberg a Flinders, 2019). Fodd bynnag, mewn perthynas ag

addysg dinasyddiaeth gyfredol y DU, mae'n ymddangos, er gwaethaf y potensial ar gyfer addysg dinasyddiaeth gynhwysfawr ac arloesol yn y DU (a'r llu o enghreifftiau 'lleol' rhagorol yn ymarferol), mae polisïau/cwricwla gwahanol a newidiol, hyfforddiant athrawon annigonol ac anarbenigol, a'r her o gystadlu am adnoddau a diffyg lle mewn cwricwla/ysgolion, wedi cyfrannu at ddarpariaeth addysg dinasyddiaeth 'anghymesur' ledled ac o fewn pedair gwlad y DU (Jerome et al., 2022: 14). Mae cwricwlwm newydd Cymru (y 'Cwricwlwm i Gymru'), er enghraifft, wedi cael ei feirniadu gan rai am ddiffyg ffocws penodol ar addysg wleidyddol (Moore et al., 2022), gyda galwadau am i addysg wleidyddol fod yn bwnc gofynnol ac yn bwnc penodol (Mathias, 2022). Bu symudiad hefyd oddi wrth addysgu dinasyddiaeth weithgar yn Lloegr (Weinberg a Flinders, 2019) ac - ar draws pedair gwlad y DU, gan gynnwys Cymru - mwy o ffocws ar ddinasyddiaeth weithgar 'meddal' fel gwirfoddoli a helpu eraill yn hytrach na gweithredu gwleidyddol beirniadol (Jerome et al., 2022).

Er gwaethaf rhagdybiaethau am le technoleg ddigidol ym mywydau cymdeithasol-wleidyddol pobl ifanc, nid oes tystiolaeth syml bod pobl ifanc yn trosglwyddo eu hymgysylltiad â'r cyfryngau cymdeithasol i gyfranogiad gwleidyddol ar-lein. Mae astudiaethau'n awgrymu, yn hytrach nag ailennyn diddordeb pobl ifanc sydd wedi colli diddordeb mewn gwleidyddiaeth, y gallai cyfryngau cymdeithasol fod yn llwyfan i rai pobl ifanc sydd eisoes yn ymgysylltu â gwleidyddiaeth (Keating a Melis, 2017), tra bod llawer yn cyflawni prosesau tactegol o ymddieithrio/ymgysylltu â llwyfannau cyfryngau cymdeithasol i reoli eu hunaniaethau a dylanwadau cymdeithasol-wleidyddol ar-lein (Gangneux, 2021). Mae hefyd yn bwysig ystyried cymhlethdod cyfranogiad gwleidyddol pobl

ifanc. Yn wir, mae methu â rhoi cyfrif am ffactorau hunaniaeth croestoriadol fel rhyw a rhywedd, ethnigrwydd, anableddau, rhywioldeb a dosbarth cymdeithasol yn ei gwneud yn anodd deall, ac felly dadansoddi, rhwystrau i ymgysylltiad gwleidyddol ymysg pobl ifanc. Tynnwyd sylw at arwyddocâd ffactorau hunaniaeth mewn astudiaeth ddiweddar gan Dŷ'r Cyffredin (Uberoi a Johnston, 2022), a oedd yn dadansoddi rhai agweddau ar ymddygiad gwleidyddol yn y DU yn ôl oedran, ethnigrwydd, gradd gymdeithasol, rhyw ac anableddau. Daeth yr astudiaeth i'r casgliad, er y gall rhai grwpiau ddangos lefelau tebyg o ymddieithrio y gall y ffactorau sy'n sbarduno hyn amrywio'n sylweddol. Mae'r adroddiad hefyd yn awgrymu, yn hytrach na bod yn apathetig, y gallai fod gan rai pobl ifanc ddiffyg dealltwriaeth ynghylch sut i gyfranogi'n wleidyddol. Fodd bynnag, mae'r adroddiad (2022: 16) hefyd yn nodi, er bod pobl ifanc 18-25 oed 'yn fwyaf anfodlon â sut mae democratiaeth yn gweithio yn y DU... nhw sy'n lleiaf tebygol o ddweud ei bod yn anodd deall beth sy'n digwydd mewn gwleidyddiaeth a llywodraeth.' Felly, er bod themâu cyffredin sy'n gysylltiedig ag oedran ar waith, mae'r darlun yn un cymhleth.

Cyfranogiad ieuenctid yng Nghymru – beth yw'r darlun presennol?

Y tu hwnt i lenyddiaeth ac ymchwil ehangach sy'n canolbwyntio ar gyfranogiad gwleidyddol ieuenctid ledled y DU, mae'n bwysig cyd-destunoli rhai o fanylion cyfranogiad gwleidyddol ieuenctid ochr yn ochr ag effaith datganoli yng Nghymru.

Roedd beirniadaeth gymharol ddiweddar o'r dybiaeth 'gwleidyddiaeth gobaith' sy'n gysylltiedig â datganoli (y syniad y bydd datganoli'n arwain at well

ymgysylltiad gwleidyddol ymysg ieuenctid) yn dadlau, er gwaethaf gostwng yr oedran pleidleisio ar gyfer etholiadau datganoledig yng Nghymru, bod cefnogaeth ieuenctid ar gyfer datganoli yn ddarlun cymhleth, wedi'i gysylltu â 'chlorian ddaearyddol o hunaniaethau gwleidyddol, cymdeithasol a diwylliannol' (Pearce, 2019: 172). Wedi dweud hynny, mae polau piniwn yn ystod y blynyddoedd diwethaf yn awgrymu'n glir bod pobl iau (18-24, a 25-34) bellach yn fwy cefnogol i annibyniaeth o'i gymharu â phobl hŷn (Nation.Cymru, 2023), ac maent yn fwy tebygol o gefnogi datganoli rhagor o bwerau i'r Senedd gyda chefnogaeth yn gostwng po hynaf fo'r grŵp oedran (Nation.Cymru, 2020). Mae hyn yn newid o'i gymharu â deng mlynedd yn ôl, pan oedd cefnogaeth i ddatganoli ar lefelau tebyg ar draws grwpiau oedran (Scully, 2013). Gellir ystyried datganoli fel math o 'ailraddio tiriogaethol' (Pearce, 2019: 157). Mae meddwl am hyn yn ddaearyddol yn cynnig persbectif ar effeithiau cymdeithasol a diwylliannol datganoli yn ogystal â'r prosesau gwleidyddol o ailffocysu mwy o gyfrifoldeb ar Senedd Cymru a Llywodraeth Cymru. Mae ymchwil i ganfyddiadau pobl ifanc o bryderon gwleidyddol yng Nghymru yn awgrymu bod y rhain yn gysylltiedig â materion lleol, ac yn cael eu dylanwadu hefyd gan ganfyddiadau o gynrychiolaeth ystyrlon, sydd yn eu tro yn dylanwadu ar gyfranogiad.

Mae astudiaethau ymchwil wedi rhoi darlun cymysg o gyfranogiad gwleidyddol pobl ifanc yng Nghymru, gyda'r darlun cyffredinol yn awgrymu eu bod yn amwys ac nad ydynt bob amser yn glir ynghylch sut mae strata gwahanol asiantaethau llywodraeth leol, genedlaethol a'r DU gyfan yn effeithio'n uniongyrchol ar eu bywydau bob dydd. Roedd ymchwil gan y Comisiwn Etholiadol (2022) yn awgrymu bod angen mwy o addysg a chymorth ar bobl

ifanc yng Nghymru i gymryd rhan mewn gwleidyddiaeth leol a chenedlaethol, gyda chyfranogwyr yn dweud eu bod yn teimlo nad oeddent yn gwybod digon am ymgeiswyr lleol, y pleidiau, na'r broses ddemocrataidd yn gyffredinol. Mae Astudiaeth Aml-garfan Addysg WISERD (Sefydliad Ymchwil Gymdeithasol ac Economaidd a Data Cymru), a oedd yn canolbwyntio ar ddisgyblion ysgolion uwchradd ym mlynyddoedd 7, 9 ac 11, yn awgrymu bod gan y rhan fwyaf o bobl ifanc Cymru ansicrwydd ynghylch gwleidyddiaeth a phleidleisio, gyda bylchau yn eu gwybodaeth am wleidyddiaeth (Foster et al., 2022). Mewn gwirionedd, dangosodd yr astudiaeth hon mai dim ond 37% o ddisgyblion Blwyddyn 11 a bleidleisiodd yn etholiadau Senedd Cymru (y flwyddyn gyntaf yr oeddent yn gymwys).

Cafodd mentrau fel yr ymgyrch 'Defnyddiwch Eich Llais' yn 2021 i annog pobl ifanc o Gymru i gofrestru i bleidleisio ganlyniadau cymysg, er bod yn rhaid deall y rhain yn erbyn cefndir seismig pandemig y coronafeirws. Yn ddiddorol, mae ymchwil WISERD yn awgrymu bod gan 41% o bobl ifanc Cymru fwy o ddiddordeb mewn gwleidyddiaeth yn 2020 na chyn y pandemig (Foster, 2021). Mae'r llinellau clir rhwng rôl Llywodraeth Cymru yn y pandemig (a rôl Llywodraeth y DU) a sut gallai hyn effeithio ar fywyd o ddydd i ddydd fod wedi ei gwneud yn haws i bobl ifanc ystyried perthnasedd gwleidyddiaeth yn eu bywydau, ond mae angen rhagor o ymchwil yma. Yr hyn sydd wrth wraidd hyn yw syniadau cymhleth a dealladwy pobl ifanc ynghylch pwy a beth ddylai fod yn gyfrifol am fynd i'r afael â materion gwleidyddol. Efallai y bydd y syniadau hyn nid yn unig yn cael eu ffurfio ar sail gwybodaeth am ble mae pŵer, ond ar sail gymdeithasol-hanesyddol a diwylliannol o amgylch hyn, a sut mae materion gwleidyddol unigol yn cael eu deall a'u teimlo ar lefel leol, ddaearyddol.

Mae canlyniadau astudiaethau diweddar ar ymddygiad pleidleisio pobl ifanc yng Nghymru wedi annog Llywodraeth Cymru i sefydlu'r Grant Ymgysylltu Democrataidd (2023), sy'n ariannu 11 prosiect ar hyn o bryd sy'n targedu'r rheini sy'n llai tebygol o gyfranogi yn y broses ddemocrataidd. Mae'r rhain yn cynnwys Y Prosiect Gwleidyddiaeth, Yr Ymddiriedolaeth Arloesi, Clwb Bechgyn a Genethod Cymru, a Fy Nghymdeithas, sydd i gyd yn defnyddio dulliau arloesol i ystyried sut y gellir cynnwys y grwpiau o bobl ifanc sydd wedi ymddieithrio fwyaf mewn prosesau democrataidd.

Polisi ieuenctid Cymru, mentrau, a ble i fynd nesaf?

Ers datganoli, mae'r pwerau a'r cyfrifoldebau yng Nghymru wedi cael eu rhannu ar draws tair lefel: awdurdodau lleol (lefel leol), Senedd Cymru a Llywodraeth Cymru (lefel genedlaethol), a Senedd y DU/llywodraeth y DU (lefel y DU). Mae gan Senedd Cymru bwerau deddfu uniongyrchol mewn amrywiol feysydd polisi, gan gynnwys addysg, heb fod angen ymgynghori â San Steffan, heblaw mewn perthynas â 'materion a gedwir'. Mae addysg, ieuenctid ac ymgysylltu democrataidd wedi bod yn ffocws allweddol i Senedd Cymru mewn sawl ffordd.

Yn dilyn Deddf Senedd ac Etholiadau (Cymru) 2020 a Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) yn 2021, mae'r oedran pleidleisio mewn etholiadau Senedd Cymru ac etholiadau lleol wedi cael ei ostwng i 16, ac mae gan awdurdodau lleol y pŵer i newid eu system bleidleisio i wella cyfranogiad mewn etholiadau (o 'y cyntaf i'r felin' i ' bleidlais sengl drosglwyddadwy').

Roedd ‘Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc’ (2011) Llywodraeth Cymru yn ei gwneud yn ddyletswydd ffurfiol ar Weinidogion Cymru i ystyried Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau’r Plentyn (CCUHP) wrth lunio deddfwriaeth a phenderfyniadau strategol eu natur. Yn dilyn y mesur hwn, mae polisïau sy’n berthnasol i gyfranogiad gwleidyddol ieuenctid ar lefel Cymru ers 2013 wedi cynnwys y Cynllun Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid (2013), Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) (2015), y Cynllun Hawliau Plant (2021), a’r Cynllun Plant a Phobl Ifanc (2022), ac, yn fwyaf diweddar, ymrwymiad Llywodraeth Cymru i’r Grant Ymgysylltu Democrataidd (2023) fel y trafodwyd yn gynharach.

Er bod y Cynllun Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid (2013) yn canolbwyntio’n fwy cadarn ar leihau nifer y bobl ifanc rhwng 11 a 25 oed nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant, roedd yn rhoi pwyslais cryf ar arweinyddiaeth a’r angen i awdurdodau lleol fod yn atebol i gynlluniau gweithredu a fydd yn dangos eu bod yn ymgysylltu’n briodol â phobl ifanc mewn cyfleoedd a phrofiadau dinesig. Un o brif uchelgeisiau’r Cynllun Hawliau Plant (2021) oedd sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cael eu cydnabod fel dinasyddion gweithgar sydd â rôl hanfodol i’w chwarae yng Nghymru’r dyfodol. Yn dilyn ymchwiliad manwl, mae’r Cynllun yn hyrwyddo Model Ymgysylltu gweithredol, Safonau Cyfranogi, ac yn pwysleisio’r angen am wybodaeth hygyrch. Nod Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) (2015) yw sicrhau bod gan genedlaethau’r dyfodol o leiaf yr un ansawdd bywyd ag sy’n bodoli ar hyn o bryd, ond yn ddelfrydol mae’n ei wella. Fel rhan o’r nod hwn, mae Comisiynydd Cenedlaethau’r Dyfodol Cymru wedi pwysleisio pwysigrwydd cynnwys pobl o bob oed a chefndir amrywiol, gan gynnwys pobl ifanc. Mae’r Cynllun Plant a

Phobl Ifanc (2022) yn cadarnhau nifer o ymrwymiadau allweddol i oresgyn rhwystrau i helpu plant a phobl ifanc i gyflawni eu potensial ac yn tynnu sylw at ymrwymiad i 'wrando ar' bobl ifanc.

Bu beirniadaeth o gyfleoedd a gollwyd ers i ddatganoli gynnig cyfle i bobl a llywodraethiant Cymru ailffocysu'n wleidyddol ar hierarchaeth o'u cysyniad eu hunain o anghenion. Er bod yr oedran pleidleisio wedi gostwng i 16, yn 2021 dim ond tua hanner y bobl ifanc 16 ac 17 oed a gofrestrwyd i bleidleisio (Dhesi, 2022; Foster, 2021). Mae adroddiad ar effaith pleidleisio-16 yn yr Alban, y mae'r awdur yn mynd ymlaen i gysylltu hynny â Chymru, yn nodi mai'r allwedd i ymgysylltiad gwleidyddol yw gwelliannau mewn addysg wleidyddol gan gynnwys pwyslais ar fannau anffurfiol, ochr yn ochr ag addysgu dinesig mwy penodol, i rannu safbwyntiau a phrofiadau cymdeithasol-wleidyddol (Huebner, 2021). Cefnogir y safbwynt hwn gan adroddiad y Brifysgol Agored yng Nghymru/IWA 'Lleisiau Dinasyddion/Newyddion Pobl' sy'n edrych yn fanwl ar bwysigrwydd addysg wleidyddol. Mae Moore et al. (2022) yn nodi'n benodol yr angen i Lywodraeth Cymru gryfhau democratiaeth ac addysg dinasyddiaeth mewn ysgolion, gwella canllawiau addysgu drwy ganolbwyntio'n benodol ar hyn yn ystod hyfforddiant TAR, a sicrhau bod hanes modern a gwleidyddiaeth Cymru wedi'u gwreiddio'n dda yn y cwricwlwm, gan gynnwys drwy gymwysterau TGAU newydd. Adleisir yr argymhellion hyn gan waith Andreouli et al. (2024), sy'n nodi bod angen i gwricwlwm newydd Cymru gael ei gefnogi gan gyllid ychwanegol i reoli llwyth gwaith ychwanegol y cwricwlwm newydd, ystorfa o adnoddau/enghreifftiau i fonitro sut mae dinasyddiaeth yn cael ei dysgu i ddatblygu canllawiau cefnogol, gyda mwy o gydnabyddiaeth o bwysigrwydd democratiaeth ac addysg dinasyddiaeth yn gyffredinol. Ar ben hynny, mae adroddiad Moore et al. (2022)

yn awgrymu pwysigrwydd Grŵp Gorchwyl a Gorffen cadarn i ddarparu amrywiaeth o adnoddau addysg o ansawdd uchel sydd wedi'u dosbarthu'n dda, wedi'u cydgynhyrchu gyda dinasyddion, ynghyd ag ymgyrch gwybodaeth gyhoeddus sydd â'r nod o ymgysylltu â grwpiau amrywiol – oedolion yn ogystal ag oedran ysgol.

Mae angen deall y diffyg ymgysylltu ymysg pobl ifanc yn yr etholiadau diweddaraf yng Nghymru yn erbyn gostyngiad cyffredinol yn nifer y bobl a bleidleisiodd mewn etholiadau lleol, sef 38.7% yn 2022, 4% yn is nag yn 2017. Er mai'r nifer a bleidleisiodd yn etholiad diwethaf Senedd Cymru yn 2021 oedd y mwyaf erioed, sef 46.6%, mae hyn yn dal i olygu, fel y mae Senedd Cymru yn nodi, nad oedd dros hanner y bobl a allai bleidleisio wedi gwneud hynny (Moss, 2024). Roedd yr ymgysylltu'n amrywio ar draws y wlad, ond mae'r darlun cyffredinol yn awgrymu bod etholiad datganoledig wedi methu ag ymgysylltu â llawer o'r etholwyr. Yn wir, nid yw nifer y bobl a bleidleisiodd yn Senedd Cymru erioed wedi bod yn fwy na 50%, a dim ond 46.3% a bleidleisiodd yn yr etholiad cyntaf yn 1999 – rhywbeth a ddisgrifiwyd ar y pryd fel 'diffyg mawr'. Un o brif flaenoriaethau Llywodraeth Cymru yw ymgysylltu â phleidleiswyr newydd, ond mae angen dealltwriaeth ddyfnach o pam nad oes mwy o atyniad i'r blwch pleidleisio ar draws pob grŵp oedran. Er gwaethaf dros ddau ddegawd o lywodraeth ddatganoledig yng Nghymru, mae ansicrwydd ymysg pleidleiswyr iau posibl yn parhau, ac mae angen gwell dealltwriaeth o'r hyn sy'n datgymell neu'n cymell cyfranogiad gwleidyddol. Mae'r gwahanol astudiaethau ymchwil a pholisïau ymatebol yng Nghymru yn cefnogi'r asesiad bod ansicrwydd yn cael effaith sylweddol ar ymgysylltiad gwleidyddol ifanc Cymru, ac yn gyffredinol yn pwyntio at adnoddau sy'n canolbwyntio ar ailennyn diddordeb mewn prosesau

democrataidd presennol. Mae cyfryngau newyddion y DU, sy'n tueddu i ganolbwyntio ar Lundain/Lloegr, wedi cael ei nodi fel ffactor mewn perthynas â diffyg ymgysylltiad/dealltwriaeth wleidyddol, gyda rhai pobl 'ddim yn ymwybodol o'r diffyg dimensiwn Cymreig i'r newyddion roeddent yn ei ddefnyddio' (Moore et al., 2022: 27).

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod rhai o'r materion, a amlygwyd gan ei hymrwymiad i ddatblygu adnoddau addysg wleidyddol i'w defnyddio mewn ysgolion yng Nghymru (er enghraifft, adnoddau a ddatblygwyd gyda'r Gymdeithas Addysgu Dinasyddiaeth i gefnogi addysgu gwleidyddiaeth), rhywbeth a hyrwyddir hefyd gan Gymdeithas Diwygio Etholiadol Cymru a'i phrosiect 'Clywed Ein Llais' (Blair a Mathias, 2018). Fodd bynnag, mae yna risg bod y ffocws ar ymreolaeth ysgolion mewn perthynas â darparu'r adnoddau hyn yn eu rhoi mewn perygl o amrywiad enfawr – o ran darparu ac effeithiolrwydd, fel y cydnabyddir gan Andreouli et al. (2024) sy'n nodi'r her o ran gweithredu'r cwricwlwm Cymreig newydd yn anghyson ar draws ysgolion, a'r diffyg arweiniad. Yn ddiweddar, mae Llywodraeth Cymru wedi cytuno i greu TGAU newydd mewn Hanes ac Astudiaethau Cymdeithasol, gydag elfennau allweddol ar hanes a gwleidyddiaeth Cymru (Cymwysterau Cymru, 2023). Er nad yw'n orfodol i'w hastudio, gallai'r cymwysterau newydd hyn arwain at gyfleoedd yn y dyfodol. Fel y mae Moore et al. (2022: 25) yn ei nodi am y TGAU Astudiaethau Cymdeithasol a gynigiwyd bryd hynny, 'gallai, a dylai ei fabwysiadu'n eang mewn ysgolion yng Nghymru arwain at gyrsiau TAR arbenigol ar gyfer athrawon Astudiaethau Cymdeithasol a allai wedyn hefyd gyflwyno gwersi addysg Democratiaeth a Dinasyddiaeth arbenigol i bob myfyriwr ar lefel uwchradd'.

Mae Andreouli et al. (2024) hefyd yn nodi pwysigrwydd y Cwricwlwm newydd i Gymru o ran rhoi amser/lle ar gyfer trafodaeth myfyrwyr, cysylltu â phryderon pobl ifanc o ddydd i ddydd, a chyfleoedd i bobl ifanc ymgysylltu â llunwyr polisïau/cymdeithas sifil. Yr hyn sy'n glir yw'r angen am fwy o eglurder i alluogi cenedlaethau'r dyfodol i gael eu trwytho mewn addysg wleidyddol sy'n cefnogi eu penderfyniadau a'u hymgysylltiad yn y dyfodol, ac ymchwil bellach i sefydlu ymdeimlad clir o'r hyn sy'n gyrru'r amharodrwydd i ymgysylltu'n gyson. Ochr yn ochr â symud tuag at ymgysylltu mae angen ymdeimlad cliriach o beth yw gwleidyddiaeth ddyddiol i bobl ifanc Cymru, a'r datgysylltiad rhwng profiadau bywyd bob dydd a gwleidyddiaeth ffurfiol. Yn 2022 cyhoeddodd Llywodraeth Cymru y Papur Gwyn ar Weinyddu a Diwygio Etholiadol i ymgynghori'n ehangach â phoblogaeth Cymru ynghylch ffyrdd y gall y llywodraeth wella ymgysylltiad yn sylweddol. Ynghyd â ffocws diweddaraf Llywodraeth Cymru ar foderneiddio etholiadau yng Nghymru, yn ogystal â chreu'r Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil (a gafodd ei ailenwi'n Medr ers hynny) a fydd yn goruchwylio'r holl addysg ôl-16 ledled Cymru o 2024 ymlaen gydag ymrwymiad i ddysgu gydol oes ac ymgysylltiad dinesig wedi'i ymgorffori yn ei genhadaeth, mae'n teimlo fel bod yr amser wedi cyrraedd i fynd i'r afael â beth yw democratiaeth ystyrlon i bobl ifanc yng Nghymru, a darparu addysg democratiaeth effeithiol.

Tyrchu i'r data: canlyniadau'r arolwg

Rhan allweddol o waith ein Ysgogwyr Newid oedd tri arolwg a oedd â'r nod o gasglu dealltwriaeth a syniadau pobl ifanc am greu newid cymdeithasol a gwleidyddol yng Nghymru. Gan adeiladu ar ein hadolygiad cychwynnol o lenyddiaeth a pholisi, cawsom gyfle i gasglu data pwysig iawn drwy ddargyfeirio ein cyrhaeddiad drwy dri arolwg gwahanol:

- Arolwg cychwynnol ar-lein gyda myfyrwyr Prifysgol Agored Cymru, i brofi'r arolwg [60 o ymatebwyr]
- Arolwg ar-lein ar y cyfryngau cymdeithasol (drwy X/Twitter) [204 o ymatebwyr]
- Arolwg ar-lein a gynhaliwyd gan gwmni marchnata allanol [100 o ymatebwyr].

Cyrhaeddom gyfanswm o dros 350 o bobl ifanc o Gymru rhwng 16 a 24 oed. Oherwydd natur benodol yr arolwg ar-lein a gynhaliwyd gan gwmni marchnata allanol, gellir ystyried bod yr atebion sampl ar gyfer yr arolwg hwnnw (n=100) yn gynrychioliadol. Roedd 55% o'r sampl yn fenywod (n=55), 42% yn ddynion (n=42), a 3% (n=3) yn anneuaidd. Roedd cynrychiolaeth dda ar draws yr ystod oedran 16-24 oed: Roedd 30% (n=30) yn 16-18 oed, 30% (n=30) rhwng 19 a 21 oed a 40% (n=40) 22-24. Roedd llai na hanner (47%, n=47) yn siarad Cymraeg. O ran y lefel uchaf o addysg a gwblhawyd; roedd 24% (n=24) wedi cyflawni hyd at lefel ysgol uwchradd, 45% (n=45) lefel addysg bellach, 23% (n=23) lefel

israddedig, ac 8% (n=8) astudiaethau ôl-raddedig. Roedd yr arolwg myfyrwyr ar-lein a'r arolwg ar y cyfryngau cymdeithasol yn llai cynrychioliadol, er eu bod yn dal i ddarparu data diddorol gan amrywiaeth o bobl ifanc yn y grŵp targed.

Roedd y cyfle unigryw hwn i ddeall ymatebion pobl ifanc i'r arolwg yn tynnu sylw at y materion allweddol canlynol (gweler yr Atodiad ar gyfer cwestiynau'r arolwg).

Canfyddiad allweddol yr arolwg 1

Dywedodd mwyafrif y Cymry ifanc eu bod yn deall beth yw 'dinasyddiaeth weithgar', heb anogaeth.

Canfyddiad allweddol yr arolwg 2

Roedd llawer o bobl ifanc Cymru yn teimlo'n fwy hyderus ynghylch eu gallu i ddylanwadu ar newid gwleidyddol drwy Senedd Cymru, yn hytrach na Senedd y DU. Fodd bynnag, roedd llawer o bobl ifanc Cymru yn llai hyderus yn eu dealltwriaeth o sut i greu newid gwleidyddol a chymdeithasol drwy Senedd Cymru o'i gymharu â Senedd y DU.

Canfyddiad allweddol yr arolwg 3

Er eu bod yn teimlo'n fwy hyderus eu bod yn gallu dylanwadu ar newid yng Nghymru, mae'r arolygon i gyd yn awgrymu nad oes gan lawer o bobl ifanc yng Nghymru ddigon o wybodaeth am yr adnoddau i greu newid yn Senedd y DU nac yn Senedd Cymru. Gall rhwystrau fod yn seiliedig ar logisteg – ddim yn gwybod â phwy neu ble i gysylltu. Yn wir, nid oes gan lawer o bobl ifanc ddealltwriaeth o sut mae seneddau'n gweithredu a beth yw eu ffocws, a allai

fod yn ganlyniad i ffocws cyfyngedig ar hyn yn y cwricwlwm yn yr ysgol uwchradd. Yn wir, ar draws dau o'r arolygon (arolwg myfyrwyr y Brifysgol Agored a'r arolwg marchnata allanol), dywedodd canran uchel o ymatebwyr nad oeddent yn dysgu am wleidyddiaeth na newid cymdeithasol yn yr ysgol uwchradd. O'r bobl a ddysgodd amdano yn yr ysgol, roedd mwy yn ei weld yn ddefnyddiol nac yn annefnyddiol o ran deall sut i greu newid gwleidyddol a chymdeithasol drwy Senedd y DU a Senedd Cymru.

Canfyddiad allweddol yr arolwg 4

Datgelodd yr arolwg arwyddocâd y cyfryngau cymdeithasol wrth ddysgu am greu newid cymdeithasol a gwleidyddol. Mewn dau o'r arolygon (arolwg myfyrwyr y Brifysgol Agored ac arolwg marchnata allanol), dewisodd dipyn dros hanner yr ymatebwyr y cyfryngau cymdeithasol o naw ffynhonnell bosibl o ffynonellau gwybodaeth am newid gwleidyddol a chymdeithasol (dewiswyd hynny gan draean o'r ymatebwyr i'r arolwg cyfryngau cymdeithasol). Roedd Facebook, Tik Tok, Instagram a Twitter i gyd yn sgorio'n uchel fel ffynonellau cyfryngau cymdeithasol allweddol. Roedd yr arolygon wedi cael eu llunio'n ofalus i gasglu dealltwriaeth mor gymhleth â phosibl o ddealltwriaeth ac ymddygiad gwleidyddol pobl ifanc, ac felly datgelodd ein cwestiwn 'Os gwnaethoch ddewis cyfryngau cymdeithasol, pa mor ddefnyddiol oedd deall sut i greu newid gwleidyddol a chymdeithasol drwy Senedd y DU / Senedd Cymru?' er y gallai cyfryngau cymdeithasol fod yn ffynhonnell wybodaeth allweddol, mae llawer o bobl ifanc yng Nghymru yn credu eu bod yn llai defnyddiol i ddeall sut i greu newidiadau gwleidyddol neu newid cymdeithasol drwy Senedd Cymru yn hytrach na Senedd y DU.

Canfyddiad allweddol yr arolwg 5

Un arall o'n cwestiynau allweddol am sut mae pobl ifanc Cymru yn gweithredu neu'n deall dinasyddiaeth weithgar oedd deall pa gamau gwleidyddol, os o gwbl, yr oeddent wedi cymryd rhan ynddynt. Yn gyffredinol, roedd llai o ymatebwyr wedi ceisio creu newid drwy Senedd Cymru o'i gymharu â Senedd y DU. O'r rhai a oedd wedi gwneud hynny, roedd hyn yn fwy aml drwy lofnodi deiseb na mathau eraill o weithredu.

Canfyddiad allweddol yr arolwg 6

Mae llawer o Gymry ifanc yn fwy hyderus yn eu dealltwriaeth o sut i greu newid gwleidyddol a chymdeithasol y tu allan i seneddau (mae enghreifftiau a roddwyd yn cynnwys ymgyrchu'n lleol, codi ymwybyddiaeth ar y cyfryngau cymdeithasol, neu greu deiseb). O'r bobl ifanc hynny sydd wedi ceisio creu newid gwleidyddol y tu allan i seneddau, roedd gweithredu ar y cyfryngau (sy'n cynnwys cyfryngau cymdeithasol) yn ffordd allweddol. Roedd gwneud rhywbeth yn y gymuned leol a chreu/arwyddo deiseb amhleidiol hefyd yn atebion poblogaidd.

Canfyddiad allweddol yr arolwg 7 *

O'r opsiynau lluosog a restrir, cwrs ar-lein oedd y fformat mwyaf poblogaidd ar gyfer dysgu am sut i greu newid gwleidyddol a chymdeithasol, gydag adnodd fideo, llyfryn/testun ar-lein, a gwefan hefyd yn boblogaidd. Roedd yr ymatebwyr yn awyddus i'r adnoddau gael eu cwblhau'n gyflym, gyda 10-20 munud yr ateb mwyaf poblogaidd, ac yna 5-10 munud.

O ran elfennau dylunio pwysig, iaith hawdd ei deall oedd y mwyaf poblogaidd o'r opsiynau a restrwyd. O ran elfennau cynnwys, esboniadau o sut mae sefydliadau gwleidyddol yn gweithio, esboniadau o faterion/meysydd/cyfreithiau y mae pob Senedd yn eu cwmpasu, ac esboniadau ynghylch pwy i gysylltu/ble i gysylltu â nhw oedd y mwyaf poblogaidd o'r opsiynau a roddwyd.

*Noder, oherwydd amseriad yr arolwg marchnata allanol mewn perthynas â dylunio/creu adnoddau addysgol, dim ond yn y ddau arolwg cyntaf y cafodd y cwestiynau hyn eu cynnwys, ac nid yr arolwg marchnata allanol..

Gweithio gyda phobl ifanc

I ddadansoddi ymhellach rai o'r materion ynghylch y cynnwys, dyluniad a fformat a drafodwyd yn yr arolygon, fe wnaethom gynnal dau grŵp ffocws ar-lein gyda phobl ifanc rhwng 16 a 24 oed yng Nghymru. Roedd pob grŵp ffocws yn cynnwys naw o bobl ifanc, ynghyd ag aelod o staff o'r sefydliad ieuenctid perthnasol (Ieuenctid Sir Benfro ac Ieuenctid y Grange), yn ogystal â thîm ymchwil y Brifysgol Agored a arweiniodd y sesiynau.

Nod y grwpiau ffocws oedd gwerthuso ymgysylltiad y bobl ifanc â chwrs OpenLearn 10 awr seiliedig ar VLE a oedd wedi'i greu eisoes, 'Cyflwyniad i greu newid gwleidyddol a chymdeithasol' (Y Brifysgol Agored, 2022), a ysgrifennwyd ac a ddyluniwyd gan brif awdur yr adroddiad hwn ac a gafodd ei frandio a'i gymeradwyo gan Senedd y DU, Senedd Cymru, Senedd yr Alban a Chynulliad Gogledd Iwerddon. Drwy roi adborth ar ei ddefnydd fel adnodd addysgol, rhoddodd y grwpiau ffocws wybodaeth sylfaenol i ni i helpu i ddylunio'r adnodd addysgol yn y dyfodol, gan adeiladu ar rywfaint o'r adborth sydd eisoes wedi'i gasglu drwy'r arolygon ar-lein, yn ogystal â bod yn sail i'r drafodaeth ar gyfer y bobl ifanc.

Tynnodd y grwpiau ffocws sylw at lawer o ganfyddiadau pwysig.

Canfyddiad y grŵp ffocws 1

Dywedodd y rhan fwyaf o'r cyfranogwyr (n=15/19) fod y cwrs wedi gwella eu dealltwriaeth o 'ddinasyddiaeth weithgar'. Dim ond un cyfranogwr ddywedodd nad oedd wedi gwneud hynny.

"Doeddwn i ddim wir yn gwybod llawer am fod yn ddinesydd gweithgar cyn y cwrs, felly roedd yn eithaf addysgiadol. Rwy'n meddwl bod yr enghreifftiau fel Greta Thunberg yn dda oherwydd... rydych chi eisoes wedi clywed amdani ac mae'n enghraifft go iawn."

"Dwi'n meddwl nad oedd y diffiniad... yn rhy gymhleth, ond roedd hefyd yn eithaf manwl. Rwy'n credu bod [y diffiniad yn y cwrs] yn ddealltwriaeth sylfaenol dda o beth yw dinasyddiaeth weithredol yn ogystal â'r enghreifftiau bywyd go iawn ac yna defnyddio newid yn yr hinsawdd fel enghreifftiau o newid byd-eang... Byddwn i'n dweud ei fod wedi gwella fy nealltwriaeth."

"...Roedd yr enghreifftiau o fywyd go iawn o sut y gallwch fod yn ddinesydd gweithgar wedi rhoi'r cysyniad o ddinasyddiaeth weithgar mewn persbectif."

Canfyddiad y grŵp ffocws 2

Dywedodd y rhan fwyaf o'r cyfranogwyr (n=14/19) fod y cwrs wedi gwella eu dealltwriaeth o sut i greu newid gwleidyddol a chymdeithasol fel dinasyddion gweithgar.

"Dwi'n meddwl, i mi... fe wnaeth eich cyfeirio chi i'r cyfeiriad iawn o ran pwy i gysylltu â nhw a ble."

"Roeddwn i'n teimlo bod swm y manylion yn dda, ond efallai y byddai ei wneud mewn ffordd a oedd yn haws ei deall, yn enwedig i ddechreuwyr, yn ddefnyddiol."

"Rydych chi'n gwybod eich bod chi'n gallu...mynd ymlaen i'r rhan honno o'r wefan a gweld [pwy i gysylltu â nhw], ac roedd yn ddefnyddiol iawn i mi fod dolenni yn y cwrs ei hun i fynd â fi'n syth i'r lle roedd angen i mi fynd i gael golwg fanylach. Fel arall, fyddwn i ddim wedi gwybod ble i ddechrau chwilio am y math yna o wybodaeth."

"Roeddwn i'n gweld ei fod yn fy nghyfeirio i'r cyfeiriad iawn... ond hefyd roedd rhannau o'r cwrs a oedd yn fwy ailadroddus ac efallai ddim mor ddefnyddiol. Felly, roedd elfennau lle'r oedd yn mynd yn fanwl iawn ynghylch... gwahanol rannau o'r Senedd a gwahanol rannau o'r DU. Ond roedd yn canolbwyntio llawer ar y wleidyddiaeth a llai ar...sut i greu newid gwleidyddol. Dydw i ddim yn gwybod pa mor ddiddorol fyddai, yn enwedig i rywun rydych chi'n gwybod sydd ddim â diddordeb neu sydd ddim yn gwybod llawer. Teimlais... efallai y byddwch chi'n mynd ar goll."

"Roeddwn i wir yn hoffi sut roedd y cwrs yn esbonio i bobl ifanc sut gallan nhw ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol neu gyfryngau eraill i hyrwyddo newid cymdeithasol. Gan fy mod i'n meddwl weithiau bod datgysylltu rhwng pobl ifanc a sut maen nhw'n gallu mynegi pa newidiadau maen nhw' [eisiau] eu gweld, yn enwedig oherwydd bod y byd gwleidyddol yn effeithio ar genedlaethau'r dyfodol, sef llawer ohonom ni yn yr ystafell hon, felly mae'n braf iawn gweld ei fod yn hygyrch i bawb oherwydd rydw i'n meddwl, cyn hyn roeddwn i'n gweld pobl yn defnyddio cyfryngau cymdeithasol ar-lein i hyrwyddo rhai polisïau neu i weld newidiadau yn y ffordd mae'r llywodraeth yn cael ei redeg mae'n debyg, ond doeddwn i wir ddim yn gwybod llawer am hynny, ac rwy'n credu bod y cwrs hwn wedi rhoi gwell syniad i mi o sut gallaf fynd ati i wneud hynny."

"Rwy'n meddwl efallai y byddai mwy o gymhorthion gweledol ac offer fel ffeithluniau [yn ddefnyddiol]. Rydw i'n dysgu llawer mwy o hynny yn hytrach na thestun mawr oherwydd bod gen i well ymwybyddiaeth o beth yw bod yn ddinesydd gweithgar o ran newidiadau cymdeithasol, ond rwy'n credu y byddai'n gwella'n fawr pe bai mwy o offer gweledol ar gael."

Canfyddiad y grŵp ffocws 3

Dim ond pedwar o'r cyfranogwyr (n=4/19) a ddywedodd fod y cwrs wedi gwella eu dealltwriaeth o sut i greu newid gwleidyddol a chymdeithasol yn y DU drwy Senedd y DU/ seneddau datganoledig. Dywedodd tua dwy ran o dair (n=12/19) efallai.

"Roedd ganddo rai dolenni defnyddiol iawn, felly... roedd yr adnoddau a ddangosoch yn ddefnyddiol iawn yn fy marn i, ond roedd yr union wybodaeth a roddwyd yn ymddangos yn dipyn o ddogfen wybodaeth, gormod o wybodaeth, rhyw fath o werslyfr. Felly, os ydych chi... yn ei rannu gyda rhywbeth fel cwestiynau neu grynodebau neu rywbeth a oedd ychydig yn haws ei brosesu. Nid ei fod yn anodd ei ddeall. Dwi'n meddwl ei fod yn ormod i'w roi ar y tudalennau yna ac roedd yn eithaf ailadroddus yn [yr adrannau] am Gymru a'r Alban a Lloegr. Dwi'n meddwl efallai, pe bai'n cael ei wneud mewn ffordd wahanol y byddai'n fwy defnyddiol... Ond dwi'n hoffi'r adnoddau."

"Dwi'n meddwl mai'r hyn roedden ni wedi sylwi arno... oedd bod y ffocws ar newid gwleidyddol yn eithaf amlwg ac roedd hynny'n eithaf defnyddiol. Y system ddeisebau, dwi'n meddwl nad oedd y rhan fwyaf ohonom yn gwybod llawer am hynny. Felly roedd hynny'n sicr yn ddefnyddiol. Ond dwi'n meddwl nad oedd creu newid cymdeithasol mor amlwg. Fe wnes i ddysgu sut y gallaf greu [newid] gwleidyddol, ond nid cymdeithasol gymaint."

"Yn aml iawn, mae datganoli'n gwneud pethau'n ddryslyd. O ran Llywodraeth y DU, mae'r rhan fwyaf o'u penderfyniadau'n effeithio ar Loegr yn unig, a gellid cael rhestr o dyma'r pwerau datganoledig ar gyfer Cymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon, dyma'r hyn y gallant fynd i'r afael ag ef. Dyma'r hyn y gall Llywodraeth y DU ei ddatrys. Ac os ydych chi eisiau targedu Cymru, er enghraifft, os yw'n ymwneud ag addysg, rydych chi'n mynd at Lywodraeth Cymru yn hytrach na cheisio mynd at Lywodraeth y DU."

"Rwy'n credu y gall fod yn rhwystredig pan fyddwch chi'n ceisio dod o hyd i'r llwybr iawn, felly os oes gennych chi broblem rydych chi'n teimlo'n angerddol yn ei gylch, at bwy rydych chi'n mynd a faint o amser fydd yn ei gymryd i chi. Oherwydd, yn enwedig os ydych chi, fel llawer o bobl ifanc, yn teimlo'n gryf am fater, rydych chi'n teimlo'n angerddol iawn yn ei gylch. Felly, pan nad ydych chi'n dod o hyd i lwybr hawdd, mae'n tueddu i fod yn eithaf rhwystredig. Ond rwy'n credu bod cael Llywodraeth Cymru yn gwneud hyn ac rydych chi'n mynd yno, ond nid yw Llywodraeth Cymru yn gwneud hyn ac rydych chi'n mynd i'r DU ar gyfer hynny, rwy'n credu y byddai hynny'n helpu i sicrhau bod y materion yn cael eu trosglwyddo o ben y person i'r AS, i'r ddadl, cyn gynted â phosibl ac mor llyfn â phosibl."

"Rwy'n meddwl o ran y stwff ynghylch Senedd y DU, byddwn i'n dweud ei fod ychydig yn rhy amwys yn yr ystyr ei fod yn gwneud iddi swnio'n hawdd iawn mynd ymlaen i gysylltu ag arglwydd neu gael y Senedd i drafod eich dadl. A dwi'n meddwl nad oedd wir yn tynnu sylw at ba mor anodd ydy hynny. Roedd yn dda, ond efallai ei fod ychydig yn afrealistig."

"Rwy'n meddwl ei fod yn disgrifio'r hyn y gallwch ei wneud yn ymarferol, ond fel gyda materion cymdeithasol, mae'n llawer mwy cymhleth na gwneud deiseb neu lythyr neu bethau fel hyn, ac yn y cwrs ei hun, mae'n dweud os oes gennych chi broblem, gallwch wneud hyn, ond nid yw byth yn broses mor syml â hynny, ac rwy'n meddwl bod yna haen, fel buddiannau Aelodau Seneddol, beth mae'r pwyllgorau'n gyfrifol amdano mewn gwirionedd a beth allant ei wneud mewn gwirionedd. Rwy'n credu bod y manylion braidd ar goll."

"[Gyda] Senedd y DU, rwy'n golygu'n amlwg rydym ni yng Nghaerdydd, felly mae eisoes yn eithaf pell yn ffisegol ac yn wleidyddol. Ac felly rwy'n meddwl bod elfen yn yr hyn y gall y sefydliadau hyn ei wneud. Ac os nad ydych chi'n teimlo unrhyw ymdeimlad o gysylltiadau tuag at y mater hwn, rwy'n meddwl ei fod wedi'i orsymleiddio yn yr ystyr hwnnw nad oes gobaith iddyn nhw wneud unrhyw beth, beth bynnag. Felly gallai ei wneud fod yn ymarfer dibwrpas."

"Rwy'n credu ei fod yn helpu gyda gwybodaeth am Seneddau datganoledig, ond nid yn gymaint â hanes y [seneddau] datganoledig hynny. Os ydw i'n bod yn gwbl onest, anwybyddais y darn ar Ogledd Iwerddon gan nad yw'n berthnasol i mi, a darllenais y darn ar y Senedd. Ond wedyn pan ddechreuodd gyda'r cyflwyniad ar y seneddau datganoledig, byddai wedi bod yn braf i'r rheini nad ydynt wir yn deall sut mae'n gweithio, [i gael] efallai rhestr o'r pwerau sydd gan y Seneddau, yn hytrach na meddwl ble gallwch chi ddod o hyd i hynny. Felly, gallai pobl ddeall, wyddoch chi, trafnidiaeth, rydyn ni'n rheoli pethau fel hynny."

"Byddwn i'n dweud ei fod oherwydd mae'n amlwg ei fod yn dibynnu ar y pwnc rydych chi'n ymgyrchu drosto oherwydd pe bai'n rhywbeth fel mewnfudo neu rywbeth, mae'n amlwg y byddai'r ddeiseb yn mynd drwy Senedd y DU ond mae mater fel trafnidiaeth i Gymru, rydych chi'n mynd i fynd drwy'r Senedd. Felly, rwy'n meddwl ei fod yn eich helpu i ystyried bod yn rhaid i chi... roi eich mater mewn persbectif, beth yw pwrpas eich deiseb. Ond eto, byddai'n ddefnyddiol pe bai rhestr ar gael."

Canfyddiad y grŵp ffocws 4

Dim ond dau o'r cyfranogwyr (n=2/19) a ddywedodd fod y cwrs wedi gwella eu dealltwriaeth o sut i greu newid gwleidyddol a chymdeithasol yn y DU y tu allan i senedd y DU/ seneddau datganoledig. Roedd bron i ddwy ran o dair (n=10/19) wedi dweud na, gyda'r gweddill yn dweud efallai.

"Oherwydd bod [y cwrs] yn canolbwyntio cymaint ar wleidyddiaeth – sydd unwaith eto mor ddefnyddiol gan mai dyna sut gallwch chi wneud newid gwleidyddol cyfreithiol a gallwch chi greu arddangosiadau o hyn – ond o ran byd-eang neu gymdeithasol, doeddwn i ddim yn teimlo ein bod ni wedi ei drafod gymaint â hynny, i fod yn onest."

"Pan fyddwch chi'n mynd drwy'r cwrs, rwy'n meddwl bod llawer o wybodaeth, ond un o'r problemau a welais oedd nad oedd yn rhyngweithiol iawn. Roedd fel wal o destun."

"Rwy'n credu bod y darn ar gelfyddiaeth [codi ymwybyddiaeth drwy gelf] a blogio a'r math o offer y gallwch eu defnyddio i hyrwyddo'r newidiadau rydych chi eisiau eu gweld, yn enwedig y materion byd-eang rydych chi eisiau mynd i'r afael â nhw, rwy'n meddwl bod hynny'n llawn gwybodaeth i mi fel darllenydd y cwrs. Ac yn enwedig oherwydd eu bod wedi cael eu hysgrifennu mewn print trwm, cefais fy annog i fynd ymlaen a chwilio'r termau hyn fel offer y gallaf eu defnyddio pe bawn i eisiau ymgyrchu dros rywbeth."

Canfyddiad y grŵp ffocws 5

Nid oedd y rhan fwyaf o'r cyfranogwyr (n=14/19) yn teimlo bod fformat y cwrs sy'n seiliedig ar VLE yn ddiddorol, a dywedodd sero o gyfranogwyr mai dyma'r hyd cywir.

"Er nad yw o reidrwydd yn effeithio ar y canlyniad dysgu, pe baem yn ei wneud ychydig yn fwy deniadol yn weledol ac yn hwyl, yna byddai pobl eisiau ei wneud oherwydd mae'n cynnwys llawer o ysgrifennu ac nid oedd yn ddifyr iawn. Ac felly, pe bai gennych chi fwy o luniau a mwy o liwiau neu rywbeth i wneud iddo edrych ychydig yn fwy deniadol ac efallai ychydig yn fwy modern, efallai y byddwn i wedi bod ychydig yn fwy brwdfrydig i'w wneud."

"Rwy'n meddwl bod yr hyn a oedd yn cael ei ddweud yn y cwrs yn ddiddorol mewn gwirionedd, ond nid oedd y fformat mor wych â hynny, fel dylai'r testun fod wedi bod yn lliwiau gwahanol i dynnu sylw at yr hyn a oedd yn bwysicach nag unrhyw beth arall. Roedd llawer o ddelweddau, a oedd yn wych. Ac rydw i'n hoffi'r fideos hefyd, felly petai pethau mwy gweledol, byddai hynny'n gadarnhaol."

"Roedd yn teimlo fel bod gen i ormod i'w ddarllen. Rwy'n ei chael hi'n anodd darllen blociau enfawr o destun... ond roedd y gweithgareddau'n hwyl yn gyffredinol ac roedd y cynnwys ei hun yn eithaf gafaelgar, ond dim ond y ffordd y cafodd ei gyflwyno, sef testun bloc ac yna testun bloc arall nad oedd yn gwneud i mi ymgysylltu yn yr ystyr hwnnw."

"Byddai'n ddiddorol cael gêm arno. Felly, mae 'na gêm a welais i... lle rydych chi'n arweinydd hinsawdd ac rydych chi'n ceisio creu newid o ran newid yn yr hinsawdd ac yna rydych chi'n chwarae'r gêm hon lle mae gennych chi linell amser o 2050, ac mae'n rhaid i chi wneud gweithgareddau a gwneud penderfyniadau ynghylch sut rydych chi'n mynd i newid rhywbeth ac effeithio ar yr amgylchedd o'ch cwmpas. Roedd yn llawer o hwyl i'w wneud oherwydd yn amlwg rydych chi'n chwarae'r gêm ond rydych chi'n dysgu wrth wneud hynny."

"Dydw i ddim yn gwybod a yw hyn yn rhywbeth y gallwch chi ei wneud... [Ond] efallai gallu agor dewin Deallusrwydd Artiffisial sy'n gallu helpu i ddatrys problemau a gofyn cwestiynau am y pethau ynghylch y pwnc. Pe gellid ymgorffori hynny hefyd."

"Yr un peth rwy'n ei edmygu weithiau am y modiwlau rwy'n eu cymryd yn y brifysgol yw...mae gennych chi'r hyblygrwydd i ddewis pa brosiect rydych chi eisiau ei wneud. Ac yn amlwg, gyda hyn, rydych chi'n dewis y newid cymdeithasol rydych chi'n teimlo'n angerddol yn ei gylch. Felly, cael gweithgaredd mawr sydd ar agor drwy gydol y cwrs. Felly, gallwch greu a chael eich ysgogi i greu ymgyrch neu bwnc cymdeithasol, ac yna cael awgrymiadau yn y gweithgaredd hwn i adeiladu ar y wybodaeth rydych chi'n ei dysgu wrth fynd ymlaen... dydw i ddim yn gwybod a yw hynny'n bosibl, ond os gall adnodd deallusrwydd artiffisial ei darllen a'i hadolygu ac yna rhoi adborth i chi arno, mae hynny'n ddefnyddiol iawn."

Yn gyffredinol, roedd canfyddiadau'r grŵp ffocws yn awgrymu bod y cwrs yn ddefnyddiol ar gyfer dealltwriaeth gyffredinol o sut i greu newid gwleidyddol fel dinasyddion gweithgar, ond yn llai defnyddiol o ran y materion penodol o greu newid drwy sefydliadau gwleidyddol a'r tu allan iddynt, gyda'r fformat hefyd yn cael ei ystyried yn anniddorol mewn perthynas â chynnwys/nodau'r cwrs.

Roedd yn amlwg bod prif flaenoriaethau'r cyfranogwyr ar gyfer yr adnodd addysgol newydd yn cynnwys eglurder gweledol, rhywfaint o ryngweithio, canllawiau sy'n benodol i'r wlad, a chyd-destun gwleidyddol. Roedd y grwpiau ffocws yn arbennig o ddiddorol, gan eu bod yn dangos bod y bobl ifanc yn dal i deimlo mai adnodd ar-lein oedd y cyfrwng mwyaf diddorol ar gyfer dysgu sut i ymgysylltu'n wleidyddol. Teimlent fod rhai newidiadau y gellid eu gwneud i'r adnodd presennol, yr ydym yn cydnabod ei fod wedi'i gynllunio'n wreiddiol ar gyfer ymgysylltu'n fanylach â gwahanol ffyrdd o roi dinasyddiaeth weithgar ar waith.

Daeth yn amlwg hefyd bod angen i ni greu adnodd sy'n canolbwyntio'n fwy clir ar newid gwleidyddol a chymdeithasol. Un pwynt allweddol a godwyd gan lawer o'r bobl y buom yn siarad â nhw oedd pwysigrwydd cyd-destun cymdeithasol-hanesyddol a chymdeithasol-wleidyddol, cyflwyno cysylltiadau aml-haenog rhwng gwledydd y DU, a dehongli cymhlethdodau sefydliadau gwleidyddol unigol. Roedd adborth y grŵp ffocws yn awgrymu bod angen gwneud hyn mewn ffordd weledol ddiddorol, gan ymgorffori rhyngweithio, lliw a dylunio hwyliog. I'r bobl ifanc roedd y senarios bywyd go iawn yn teimlo fel 'ffyrdd i mewn' defnyddiol y byddent yn gallu uniaethu â nhw. Yn bwysig, roedd canllawiau sy'n benodol i'r wlad er mwyn ymchwilio i natur pŵer cydgysylltiedig, a pha sefydliadau sy'n gyfrifol am ba faterion gwleidyddol, yn dod i'r amlwg yn gyson fel gofyniad allweddol.

Roedd y mewnwelediadau hyn yn hanfodol i'n helpu i ddatblygu cam nesaf y prosiect Ysgogwyr Newid, a nodi pa fath o adnodd fydd yn diwallu anghenion y ddemograffeg targed orau.

Creu ein hadnodd addysgol

Ar ôl cyfuno canfyddiadau'r arolygon ar-lein, y grwpiau ffocws gyda phobl ifanc yng Nghymru, a'r adolygiad o lenyddiaeth a pholisi, daethom i'r casgliad mai gwefan hawdd ei defnyddio gydag elfennau rhyngweithiol fyddai'r ffordd orau o ddiwallu anghenion ein demograffeg targed o ran gwella eu dealltwriaeth o greu newid gwleidyddol a chymdeithasol yng Nghymru.

Cam 1 – dylunio'r wefan

Ein gweithgaredd allweddol cyntaf oedd creu cynllun amlinellol ar gyfer dyluniad/arddull y wefan, ei seilwaith, a'r testun/cynnwys cychwynnol ar gyfer pob adran o'r wefan; roedd yr olaf yn rhannol seiliedig ar y cwrs OpenLearn gwreiddiol – wedi'i ailysgrifennu fel y bo'n briodol – ynghyd â thestun newydd, i sicrhau ein bod yn diwallu'r anghenion a amlinellwyd gan y cyfranogwyr. Yna, fe wnaethom gyflogi cwmni dylunio gwefannau allanol i'n helpu i roi ein cynllun ar waith.

Roedd y grwpiau ffocws yn debyg o ran nifer o ymatebion, a oedd yn allweddol i ddyluniad y wefan:

- Roedd y cyfranogwyr yn ymateb orau i'r syniad o adnodd lliwgar, clir a pherthnasol. Felly, mae angen i'r iaith a ddefnyddir deimlo'n agos-atoch. Roeddent hefyd yn eiriol dros lai o fanylion esboniadol a dylunio clir a rhesymeg weledol
- Dylai adnodd fod yn syml a chyfeiriadol, h.y. dylai weithredu fel 'siart llif' i gyfeirio pobl ifanc o'u problem neu eu senario sy'n seiliedig ar bwnc at

lwybr(au) posibl ar gyfer ymgysylltu â systemau gwleidyddol a allai eu helpu i weithredu newid

- Roedd newid cymdeithasol a dinasyddiaeth weithgar yn gysyniadau a ddeallwyd yn aml mewn ffyrdd cyfyngedig ac i wahanol raddau. Roeddent felly eisiau rhywbeth a allai fod yn ymatebol 'ar yr adeg' wrth iddynt ddod yn ymwybodol o fater cymdeithasol neu wleidyddol yn hytrach na'i bod yn ofynnol iddynt wybod ble i chwilio
- Roeddent yn teimlo mai gwefan fyddai'n gweithio orau gan y byddai hefyd ar gael ar gyfer gwybodaeth ar unwaith, drwy ffonau clyfar – arwydd ynddo'i hun bod hygyrchedd yn bwysig, yn ogystal â deall y ffyrdd y mae pobl ifanc yn defnyddio technoleg ac yn cael gafael ar wybodaeth.

Felly, cafodd y wefan ei chynllunio gyda dyluniad syml ond deniadol, cynllun clir a hygyrch, a seilwaith a oedd yn hwyluso ymgysylltu â'r ffyrdd gwahanol o greu newid gwleidyddol a chymdeithasol a'r materion cymdeithasol allweddol sy'n berthnasol i bobl ifanc. Yn hollbwysig, fe wnaethom benderfynu defnyddio dull 'llwybr' a oedd yn canolbwyntio ar SUT y gall pobl ifanc greu newidiadau mewn ffyrdd sy'n teimlo eu bod yn hygyrch iddynt, h.y., cyfeirio pobl ifanc o'u problem neu eu senario sy'n seiliedig ar bwnc at lwybr(au) posibl ar gyfer ymgysylltu â systemau (gwleidyddol) a allai eu cefnogi i weithredu newid, gan ystyried cyd-destun lleol (h.y. Cymru a'r DU ehangach a lle mae grym mewn perthynas â materion gwahanol).

Er mwyn ein helpu i gyfyngu ar y materion cymdeithasol sy'n cael sylw ar y wefan, fe wnaethom ofyn cwestiwn ychwanegol yn yr arolwg ymchwil i'r farchnad allanol i helpu i nodi pa rai oedd bwysicaf i bobl ifanc Cymru. Datgelodd yr arolwg hwnnw mai iechyd meddwl (46% o'r 100 o ymatebwyr),

cyfiawnder cymdeithasol a hawliau cyfartal (36%), yr amgylchedd a newid yn yr hinsawdd (30%), addysg (36%), a'r economi (24%), oedd y materion pwysicaf i'r bobl a holwyd gennym. Ar ôl croesgyfeirio'r canfyddiadau hyn gyda'r grwpiau ffocws a'r ymchwil desg ehangach, penderfynasom dynnu sylw at y materion cymdeithasol canlynol ar y wefan:

- Hinsawdd a'r Amgylchedd
- Economi a Chyllid
- Addysg
- Eithafiaeth
- Cydraddoldeb rhwng y rhywiau
- Materion byd-eang
- Cydraddoldeb LHDTC+
- Mudo
- Iechyd corfforol a meddyliol
- Cyfranogiad gwleidyddol
- Cydraddoldeb hiliol
- Cyfiawnder cymdeithasol.

Yn dilyn adborth y grŵp ffocws, fe wnaethom benderfynu y dylai'r wefan hefyd dynnu sylw at enghreifftiau o bobl ifanc go iawn o Gymru y mae eu dinasyddiaeth weithgar wedi creu effaith amlwg, fel Angel Ezeadum, Aelod o Senedd Ieuenctid Cymru a Llysgennad Hinsawdd Ieuenctid Cymru, Poppy Stowell-Evans. Byddai'r enghreifftiau hyn yn hygyrch ac yn berthnasol, ochr yn ochr ag enghreifftiau o ffigurau cyhoeddus mwy adnabyddus.

Cam 2 – adborth datblygiadol

Yn ogystal ag ymgynghori â phartneriaid yn y Brifysgol Agored yng Nghymru i wneud yn siŵr bod dyluniad ein gwefan yn bodloni safonau cydymffurfio a hygyrchedd mewnol ac allanol, roeddem hefyd wedi cysylltu â phedwar o'n cyfranogwyr blaenorol yn y grŵp ffocws hanner ffordd drwy'r cam dylunio. Roedd hyn yn caniatáu i ni wneud yn siŵr bod y wefan yn diwallu anghenion ein demograffig targed.

Fe wnaethon ni ofyn cwestiynau penodol, yn hytrach na gofyn am adborth cyffredinol, oherwydd bod y wefan yn seiliedig ar yr adborth roedden ni eisoes wedi'i gasglu (y grŵp ffocws cyntaf a'r arolygon ar-lein) yn ogystal ag ymchwil ehangach. O'r herwydd, nid oedd angen adborth arnom ynghylch, er enghraifft, a oedd y fformat a ddewiswyd yn un y byddent yn bersonol yn ei ddefnyddio neu a fyddai'n well ganddynt gael dyluniad arall, ond yn hytrach manylion yr adnodd oedd yn cael ei greu er mwyn ei fireinio.

Fe wnaethon ni ofyn y cwestiynau canlynol:

- Cynnwys: Ar frig y dudalen hafan, mae rhywfaint o destun yn cyflwyno'r wefan ('Mae bod yn Gyflawnwr Newid yn golygu y gall gweithredoedd bach arwain at newidiadau mawr…' ymlaen). Ydych chi'n teimlo bod hyn yn esbonio'n glir beth yw pwrpas y wefan? Beth fyddai angen i chi ei wybod?
- Cynnwys: Ar frig y dudalen hafan mae deuddeg o ddolenni pwnc (o dan 'beth sy'n bwysig i chi?'). Pe baem yn eu cwtogi i chwech, pa bynciau ddylai aros?

- Cynnwys: Yng nghanol y dudalen hafan mae panel sy'n cynnwys pynciau yn nhrefn yr wyddor ('newid hinsawdd' yw'r cyntaf, gyda thestun o dan bob un). Beth fyddai'r tri uchaf pe bai'r rhain yn cael eu trefnu yn ôl pwysigrwydd?
- Cynnwys: Mae'r dudalen ysbrydoliaeth yn dangos pum person. A yw'r holl bobl hyn yn berthnasol? Pwy arall fyddech chi'n ei gynnwys?
- Dyluniad: Mae switsh thema yn y troedyn ar bob tudalen (pinc (aml-liw), glas, gwyrdd, oren). Pa un o'r themâu hyn ddylai fod yn ddiofyn pan fydd y safle'n llwytho am y tro cyntaf?
- Cynnwys/dyluniad: Oes gennych chi unrhyw awgrymiadau eraill ar gyfer gwella cynnwys neu ddyluniad y wefan?

Yn gyffredinol, roedd yr ymateb i'r wefan yn gadarnhaol. Roedd y sylwadau'n cynnwys:

"Rwy'n teimlo bod y wefan yn esbonio'n glir beth sydd angen ei wneud, mae'n dweud wrthyf beth yw bod yn gyflawnwr newid yn ogystal â pham mae'n bwysig gwneud pethau fel beth mae Ysgogwyr Newid yn ei wneud. Mae'r wefan yn dweud wrth bobl pa wahaniaethau y gellid eu gwneud drwy greu newid."

"Rwy'n hoffi'r dywediad 'mae gweithredoedd bach yn arwain at newid mawr'. Mae'n egluro... beth yw pwrpas y dudalen – bod yn berson ifanc a thrwy wneud pethau llai, gall wneud mwy o wahaniaeth i eraill. Fodd bynnag, yn uniongyrchol oddi tano rydych yn sôn am siarad â senedd y DU a'r Senedd. Byddwn yn dweud bod y rhain yn gamau mawr iawn a gallant fod yn eithaf brawychus. Efallai y byddwch am ychwanegu rhywfaint o destun sy'n cyfeirio at gynghorau lleol neu grwpiau ieuenctid, felly mae'n ymddangos yn haws."

"Mae dyluniad y wefan yn lân ac yn daclus. Rwy'n hoffi'r dyluniad a'r thema drwy'r wefan. Mae'r wybodaeth ar lefel addas, nid yw'n llethol o fanwl ac mae pawb yn gallu ei deall heb unrhyw wybodaeth am y pwnc."

"Rwy'n hoffi'r swyddogaeth newid thema. Dydw i ddim wedi gweld unrhyw beth tebyg ar unrhyw wefan arall."

"Dydw i ddim yn hoff iawn o'r [testun] 'ymunwch â'r Ysgogwyr Newid', mae'n swnio fel clwb neu sefydliad. Efallai fy mod i wedi camddeall hyn, ond dydw i ddim yn meddwl fy mod yn ymuno â sefydliad, roeddwn i'n meddwl mai dod yn gyflawnwr newid a gwneud newid yn fy nghymuned leol yr oeddwn i. Gallech roi cynnig ar 'byddwch yn gyflawnwr newid' neu rywbeth tebyg."

"Rwyf o blaid swyddogaeth neu adran sy'n rhoi sylw i unigolion ledled y DU ac yn fyd-eang sy'n mynd ati i sbarduno newid a gwneud gwahaniaeth ar hyn o bryd. Dylai'r nodwedd hon gwmpasu unigolion a phrosiectau o ddemograffeg amrywiol, gan gynnig darlun cynhwysfawr o fentrau sy'n cael effaith."

"Byddai cynnwys adnoddau amlgyfrwng fel pytiau fideo byr yn gwella gwerth y platfform yn fawr. Ar ben hynny, o ystyried ei ffocws addysgol, byddai gweithredu nodwedd sy'n galluogi defnyddwyr i wneud nodiadau ac amlygu darnau i gyfeirio atynt yn y dyfodol yn werthfawr iawn. Byddai'r swyddogaeth hon yn gwella ymgysylltiad defnyddwyr ac yn hwyluso profiadau dysgu gweithredol ar y llwyfan."

Arweiniodd yr adborth at y newidiadau canlynol:

- Newid y testun agoriadol ar y dudalen gyflwyno i wneud cyflawni newid yn llai 'brawychus' (felly, egluro y gellir creu newid mewn ffyrdd heblaw drwy Senedd y DU a Senedd Cymru)
- Mae mân newidiadau i ddarnau eraill o destun, fel newid 'ymunwch â'r Ysgogwyr Newid' i 'byddwch yn gyflawnwr newid', i egluro rhai adrannau neu egluro rhai cysyniadau'n well
- Yn hytrach na lleihau nifer y pynciau, gwnaethom gadw at y deuddeg gwreiddiol, ond newidiwyd ychydig ar rai ohonynt i'w gwneud yn fwy perthnasol

- Newid rhai o'r enghreifftiau ysbrydoledig, i'w gwneud yn fwy perthnasol (rhagor o enghreifftiau o Gymru, mwy o enghreifftiau o oedolion ifanc)
- Cadw'r switsh thema fel bod y cyfranogwyr yn gallu dewis o bedwar lliw ond gan wneud y lliw diofyn yn binc.

Cam 3 – y wefan derfynol

Mae'r wefan derfynol ar gael yn yr URLs isod:

https://changemakers.wales/en/ [fersiwn Saesneg]

https://changemakers.wales/cy/ [fersiwn Cymraeg].

Mae pob gwefan yn cynnwys 'togl' sy'n galluogi'r defnyddiwr i newid o'r Saesneg i'r Gymraeg neu'r Gymraeg i'r Saesneg, er mwyn bodloni safonau'r Gymraeg.

Mae **tudalen flaen** y wefan yn cynnwys teitl y wefan ('Ysgogwyr Newid'), testun rhagarweiniol sy'n gwneud yr agwedd ddatganoledig/cenedlaethol o gyflawni newid yn glir (h.y. gallwch greu newid yn lleol, yng Nghymru, ac yn y DU), ac is-bennawd sy'n dweud bod hyn yn ymwneud â newidiadau bach sy'n arwain at newid mawr (i wneud y cysyniad o greu newid yn fwy hygyrch). Mae hefyd yn rhestru'r deuddeg mater allweddol o dan 'beth sy'n bwysig i chi' y gellir clicio arnynt i arwain at bob pwnc unigol.



Mae'r tab '**materion'** hefyd yn rhestru pob pwnc gyda rhywfaint o destun rhagarweiniol. Mae clicio wedyn yn arwain at ragor o wybodaeth am bob pwnc.

Er enghraifft, mae '**hinsawdd a'r amgylchedd'** yn cynnwys rhagor o wybodaeth am yr hyn y mae eraill yn ei wneud a'r hyn y gall unigolion ei wneud (gan gynnwys, allan o sgrin luniau, dolenni i wefannau perthnasol eraill), yn ogystal ag adran 'pwy sy'n gyfrifol' sy'n amlinellu, gyda thic pinc, pa sefydliad (cynghorau lleol, Senedd Cymru neu Senedd y DU) sy'n gyfrifol - yna gall defnyddwyr glicio ar yr ateb perthnasol i gael rhagor o wybodaeth. Gallant hefyd glicio ar 'bod yn gyflawnwr newid' sy'n rhoi awgrym iddynt o sut y gallant geisio creu newid (megis creu deiseb).

Mae'r tab '**gweithredu'** yn rhoi gwybodaeth am sut i weithredu i greu newid drwy sefydliadau gwleidyddol a'r tu allan iddynt. Gellir clicio ar bob adran i gael rhagor o wybodaeth ac enghreifftiau. Gall defnyddwyr, os ydynt yn dymuno, fynd yn syth i'r adran hon os nad oes ganddynt bwnc penodol neu os ydynt am gael rhagor o wybodaeth gyffredinol.

Mae'r tab '**ysbrydoliaeth'** yn rhestru pedair enghraifft – dau ddinesydd ifanc enwog o Gymru. Gellir clicio ar bob un i gael rhagor o wybodaeth, gan amlinellu beth wnaethon nhw, a oedden nhw'n llwyddiannus ac unrhyw heriau.

Mae'r tab '**datganoli'** yn egluro sut mae gwleidyddiaeth yng Nghymru yn gweithio a pha sefydliad sy'n gwneud beth.



Ceir hefyd tab '**ynghylch'** sy'n egluro tarddiad y prosiect, a'r tab '**Cymraeg'** sy'n newid y testun Saesneg i'r Gymraeg (ac fel arall ar fersiwn Gymraeg y wefan).

Cam 4 – y camau nesaf

Mae'n bwysig cydnabod nad diwedd y daith yw'r wefan rydyn ni wedi'i chreu. Yn wir, gwnaeth y bobl ifanc a gymerodd ran yn ein hymchwil awgrymiadau eraill y gallwn eu cynnwys yn y wefan hon neu weithredu arnynt mewn cam prosiect dilynol.

Mae'r awgrymiadau'n cynnwys:

- Ar y wefan:
- Mwy o ryngweithio, fel cwisiau/profion dysgu a chyfleusterau gwneud nodiadau/amlygu
- Elfen gêm, e.e. gêm sy'n profi sgiliau cyflawni newid person a'r penderfyniadau y mae'n rhaid eu gwneud er mwyn cael canlyniad cadarnhaol
- 'Elfen o ddeallusrwydd artiffisial', e.e. rhyngweithio â sgyrsfot i ofyn cwestiynau, neu ei defnyddio i adolygu/rhoi adborth ar atebion person
- Cyflwyno fideos (megis Ysgogwyr Newid ysbrydoledig yn siarad am sut y gwnaethant greu newid)
- Mwy o astudiaeth achos
- Creu rhestr termau/amlygu geiriau allweddol
- Y tu allan i'r wefan:
- Mwy o ffocws ar newid cymdeithasol a gwleidyddol mewn ysgolion i gynyddu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth, gan gynnwys cyfleoedd i drafod a dadlau
- Darparu adnoddau addysg hygyrchedd ar draws y ffrwd addysgol

- Defnyddio llwyfannau cyfryngau cymdeithasol i gynyddu ymwybyddiaeth (gan gynnwys defnyddio memynnau doniol).

"Dylai ysgolion fod yn addysgu gwleidyddiaeth fwy blaengar. A mwy am bolisi yn gyffredinol. Mae'r ffaith y byddwn wedi mynd drwy'r rhan fwyaf o'r ysgol uwchradd heb ddeall yn glir y gwahaniaethau allweddol rhwng Llafur a'r Ceidwadwyr, oni bai am fy ymchwil fy hun, yn warthus".

"Byddai'n cŵl cael adnoddau addysgol ar newid gwleidyddol a chymdeithasol – byddwn i'n sicr wedi darllen hynny! Gwnewch yn siŵr ei fod mewn fformat sy'n addas i ddyslecsia ac yn gydnaws â darllenwyr sgrin os gwelwch yn dda".

"Rwy'n credu bod angen dysgu mwy o bobl i siarad dros bethau pan fyddant yn yr ysgol uwchradd, fel cyflwyno gwleidyddiaeth neu rywbeth fel gwers".

"Efallai defnyddio llwyfannau cyfryngau cymdeithasol i wneud pobl yn fwy ymwybodol, neu ddefnyddio darlithoedd i helpu i godi ymwybyddiaeth, neu bosteri".

Casgliadau, argymhellion a'r camau nesaf

Mae'r prosiect ymchwil 'Ysgogwyr Newid' yn archwilio gwella dealltwriaeth pobl ifanc (16-24 oed) o greu newid gwleidyddol a chymdeithasol, defnyddio Cymru fel astudiaeth achos, datblygu adnodd(au) addysgol i wella dealltwriaeth, gan feithrin dinasyddiaeth weithgar. Mae hefyd yn amcanu at helpu llunwyr polisi, addysgwyr a sefydliadau ieuenctid i ddysgu am ffyrdd cost-effeithiol o gynyddu dealltwriaeth a chyfranogiad mewn gwleidyddiaeth pobl ifanc, gan alluogi gwneud penderfyniadau mwy cynrychioliadol.

I wneud hyn, rydym wedi canolbwyntio i ddechrau ar Gymru a phobl ifanc Cymru, gan ddefnyddio amrywiaeth o ddulliau ymchwil, fel arolygon ar-lein a grwpiau ffocws, i gofnodi sut mae pobl ifanc yn teimlo am sefydliadau gwleidyddol y DU a'u dealltwriaeth o greu newid gwleidyddol a chymdeithasol, a'r math o adnodd(au) sydd eu hangen arnynt i wella eu dealltwriaeth/ymgysylltiad.

Nodau Ysgogwyr Newid

Bydd 'Ysgogwyr Newid' yn cynhyrchu adnodd(au) addysgol cadarn sy'n galluogi pobl ifanc (16-24) i ddod yn ddinasyddion gweithgar drwy wella eu dealltwriaeth o sut i greu newid gwleidyddol a chymdeithasol yn y DU

Cyflawnir hyn drwy ddatblygu adnodd(au) addysgol ar ôl addysg uwchradd/gorfodol

Bydd yr ymchwil yn canolbwyntio i ddechrau ar Gymru, gan weithio gyda dinasyddion ifanc Cymru a'r Brifysgol Agored yng Nghymru

Changemakers outcomes

Galluogi pobl ifanc (16-24) i ddeall yn well sut i greu newid gwleidyddol a chymdeithasol yn y DU fel 'dinasyddion gweithgar'

Cael effaith gadarnhaol ar gyfranogiad gwleidyddol yn ddiweddarach fel oedolion o ganlyniad i'r uwchsgilio a'r ymgysylltu a gafodd ei feithrin

Helpu llunwyr polisïau ac addysgwyr i ddysgu ffyrdd cost-effeithiol o gynyddu dealltwriaeth a chyfranogiad mewn gwleidyddiaeth pobl ifanc. Creu mwy o gydlyniant cymdeithasol, ymgysylltiad dinesig, a galluogi gwneud penderfyniadau mwy cynrychioliadol

Dylanwadu ar ddatblygiad gwybodaeth am ddinasyddiaeth pobl ifanc ac addysg wleidyddol ar ôl addysg uwchradd/gorfodol

Casgliadau ac argymhellion allweddol Ysgogwyr Newid

Dyma brif ganfyddiadau ein hymchwil hyd yma:

- Mae pobl ifanc yn y DU yn fwy tebygol o fod yn anfodlon â democratiaeth ac yn llai tebygol o gymryd rhan mewn gwleidyddiaeth ffurfiol, fel pleidleisio ac ymuno â phlaid wleidyddol – er y gallant gymryd rhan mewn mathau eraill o fywyd gwleidyddol. **Mae hyn yn awgrymu bod ffocws ar wleidyddiaeth ffurfiol/ymgysylltu gwleidyddol yn bwysig i ymchwilwyr/sefydliadau sy'n gweithio yn y maes hwn**
- Rhwystr i gyfranogiad a dealltwriaeth yw 'bylchau gwybodaeth', sy'n amrywio yn ôl ansawdd yr addysg wleidyddol a dderbynnir yn yr ysgol. Gan fod dod i gysylltiad ag addysg dinasyddiaeth yn cael effaith ar ddinasyddiaeth ymgysylltiol, **byddai pob cwricwlwm yn y DU, gan gynnwys**

cwricwlwm Cymru, yn elwa o ffocws mwy penodol ar addysg wleidyddol a dinasyddiaeth weithgar/gweithredu gwleidyddol

- Mae'r ffocws yn aml ar addysg dinasyddiaeth mewn ysgolion (yn enwedig ysgolion uwchradd), ond mae addysg ôl-uwchradd/gorfodol hefyd yn bwysig. Felly, mae angen gwreiddio addysg dinasyddiaeth nid yn unig ar draws y cwricwlwm ysgol; **mae hefyd angen ei hymestyn i oedolion/y cyhoedd fel rhan o strategaeth gwybodaeth gyhoeddus**
- Mae ymchwil i ganfyddiadau pobl ifanc o bryderon gwleidyddol yng Nghymru yn awgrymu bod y rhain yn gysylltiedig â materion lleol, ac yn cael eu dylanwadu hefyd gan ganfyddiadau o gynrychiolaeth ystyrlon, sydd yn eu tro yn dylanwadu ar gyfranogiad. Fodd bynnag, mae llawer o bobl ifanc yn ansicr ynghylch sut mae strata asiantaethau llywodraeth leol, genedlaethol a ledled y DU yn gwahaniaethu/yn effeithio ar eu bywydau bob dydd a phwy a beth ddylai fod yn gyfrifol am fynd i'r afael â materion gwleidyddol. Efallai y bydd y syniadau hyn nid yn unig yn cael eu ffurfio ar sail gwybodaeth am ble mae pŵer, ond ar sail gymdeithasol-hanesyddol a diwylliannol o amgylch hyn, a sut mae materion gwleidyddol unigol yn cael eu deall a'u teimlo ar lefel leol, ddaearyddol. **O'r herwydd, mae'n hanfodol bod addysg dinasyddiaeth, boed hynny yn yr ysgol neu ar ôl ysgol, yn cynnwys y cyd-destun pwysig hwn**
- Roedd llawer o bobl ifanc Cymru yn teimlo'n fwy hyderus ynghylch eu gallu i ddylanwadu ar newid gwleidyddol drwy Senedd Cymru, yn hytrach na Senedd y DU. Fodd bynnag, roedd llawer o bobl ifanc Cymru yn llai hyderus yn eu dealltwriaeth o sut i greu newid gwleidyddol a chymdeithasol drwy Senedd Cymru o'i gymharu â Senedd y DU. Er eu bod yn teimlo'n fwy hyderus

eu bod yn gallu dylanwadu ar newid yng Nghymru, mae'r ymchwil yn awgrymu nad oes gan lawer o bobl ifanc ddigon o wybodaeth am yr adnoddau i greu newid. Gall rhwystrau fod yn seiliedig ar logisteg – ddim yn gwybod â phwy neu ble i gysylltu. **O'r herwydd, yn ogystal â'r angen i gynyddu dealltwriaeth yn gyffredinol, efallai y bydd angen penodol i gynyddu dealltwriaeth o rôl a gweithrediad seneddau datganoledig**

- Datgelodd yr ymchwil arwyddocâd y cyfryngau cymdeithasol wrth ddysgu am greu newid cymdeithasol a gwleidyddol. Mae llawer o bobl ifanc yn teimlo mai adnodd ar-lein yw'r cyfrwng mwyaf diddorol iddyn nhw ei ddefnyddio i ddysgu sut i ymgysylltu'n wleidyddol. **Dylai adnoddau addysgol ar-lein gynnwys cyd-destun cymdeithasol-hanesyddol a gwleidyddol-gymdeithasol, gan gyflwyno'r cysylltiadau aml-haenog rhwng cenhedloedd y DU, a dehongli cymhlethdodau sefydliadau gwleidyddol unigol, gan ganolbwyntio ar newid gwleidyddol a chymdeithasol.**
- **Yr hyn sy'n glir yw'r angen am fwy o eglurder i alluogi cenedlaethau'r dyfodol i gael eu trwytho mewn addysg wleidyddol sy'n cefnogi eu penderfyniadau a'u hymgysylltiad yn y dyfodol, ac ymchwil bellach i sefydlu ymdeimlad clir o'r hyn sy'n gyrru'r amharodrwydd i ymgysylltu'n gyson. Ochr yn ochr â symud tuag at ymgysylltu mae angen ymdeimlad cliriach o beth yw gwleidyddiaeth ddyddiol i bobl ifanc Cymru, a'r datgysylltiad rhwng profiadau bywyd bob dydd a gwleidyddiaeth ffurfiol.**

Camau nesaf Ysgogwyr Newid

Mae Ysgogwyr Newid yn brosiect ymchwil parhaus. Nid diwedd y daith yw'r wefan rydym wedi'i datblygu. Gwyddom o'n hymchwil y gellir ei ddatblygu

ymhellach, a gallwn hefyd ddatblygu adnoddau ategol eraill, fel y nodwyd gan y bobl ifanc y buom yn gweithio gyda nhw.

Rydym am ymestyn yr ymchwil i gwmpasu pedair gwlad y DU (Cymru a Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon), gan archwilio barn a phrofiadau pobl ifanc 16-24 oed ledled y DU. Yr ydym wedyn am ddatblygu'r wefan fel y gall pobl ifanc o bob gwlad ei defnyddio, ar sail lle maent yn byw ac mewn perthynas â'r sefydliadau gwleidyddol sy'n eu llywodraethu.

Er ein bod wedi gweithio gyda phobl ifanc drwy gydol y broses ymchwil, mae mwy i'w wneud. Yn benodol, rydym nawr eisiau asesu effaith y wefan ar ddealltwriaeth pobl ifanc rhwng 16 a 24 oed yng Nghymru drwy set derfynol o grwpiau ffocws, gan weithio gyda'r un sefydliadau ieuenctid y buom yn gweithio gyda nhw i ddatblygu'r wefan, gan gyfrannu at y canlyniadau allweddol canlynol: '1. Galluogi pobl ifanc i ddeall yn well sut i greu newid gwleidyddol a chymdeithasol yn y DU fel 'dinasyddion gweithgar' a '2. Cael effaith gadarnhaol ar gyfranogiad gwleidyddol yn ddiweddarach fel oedolion o ganlyniad i'r uwchsgilio a'r ymgysylltu a gafodd ei feithrin'.

Rydym hefyd yn cynllunio, fel rhan o strategaeth lledaenu ac effaith y prosiect hwn, i fynd i'r afael â'r canlyniadau allweddol sy'n weddill, '3. Helpu llunwyr polisïau ac addysgwyr i ddysgu ffyrdd cost-effeithiol o gynyddu dealltwriaeth a chyfranogiad mewn gwleidyddiaeth pobl ifanc. Creu mwy o gydlyniant cymdeithasol, ymgysylltiad dinesig, a galluogi gwneud penderfyniadau mwy cynrychioliadol' a '4. Dylanwadu ar ddatblygiad gwybodaeth am ddinasyddiaeth pobl ifanc ac addysg wleidyddol ar ôl addysg uwchradd/gorfodol'. Bydd cyhoeddi'r adroddiad terfynol hwn felly'n cynnwys

digwyddiadau allgymorth gyda phobl ifanc a mudiadau ieuenctid i roi cyhoeddusrwydd i'r wefan a'r camau defnyddiol y gallant eu cymryd fel unigolion a sefydliadau. Ochr yn ochr â hyn, byddwn hefyd yn lledaenu canfyddiadau allweddol i lunwyr polisïau yn Seneddau Cymru a'r DU (a seneddau/cynulliadau eraill fel y bo'n briodol) ym meysydd addysg dinasyddiaeth ar draws y ffrwd addysgol - gan gynnwys addysg/gwybodaeth dinasyddiaeth i oedolion - ac ymgysylltu democrataidd.

Cyfeiriadau

Andreouli, E., Obradović, S., & Mahendran., K. (2024). *Citizens in the making: final report*. Open Psychology Research Centre. Ar gael yn: https://fass.open.ac.uk/school-psychology-counselling/news/citizens-in-the-making-report?nocache=66aca32ad85cc

Blair, J., & Mathias, M. (2018). *Our Voices Heard: Young People's Ideas for Political Education in Wales*. Electoral Reform Society Cymru. Ar gael yn: https://www.electoral-reform.org.uk/latest-news-and-research/publications/our-voices-heard-young-peoples-ideas-for-political-education-in-wales/

Dhesi, M. (2022). *The Welsh Voter Problem*. Sefydliad Materion Cymreig. Ar gael yn: https://www.iwa.wales/agenda/2022/05/the-welsh-voter-problem/

Foster, C. (2021). *Young people and political engagement in Wales.* Wales Institute of Social and Economic Research and Data. Ar gael yn: https://wiserd.ac.uk/blog/young-people-and-political-engagement-in-wales/

Foster, C., Arman, L., & Power, S. (2022), *Growing up in Wales: the pandemic and beyond | Evidence from the WISERD Education Multi-Cohort Study*. Wales Institute of Social and Economic Research and Data. Ar gael yn: https://wiserd.ac.uk/publication/growing-up-in-wales-the-pandemic-and-beyond-evidence-from-the-wiserd-education-multi-cohort-study/

Furlong, A., & Cartmel, F. (2012). 'Social change and political engagement among young people: Generation and the 2009/2010 British election survey', *Parliamentary affairs*, 65(1), 13-28.

Gangneux, J. (2021). 'Tactical agency? Young people's (dis) engagement with WhatsApp and Facebook Messenger', *Convergence*, 27(2), 458-471.

Henn, M., & Foard, N. (2012). 'Young people, political participation and trust in Britain', *Parliamentary affairs*, 65(1), 47-67.

Huebner, C. (2021). 'How young people in Scotland experience the right to vote at 16: Evidence on 'Votes-at-16'in Scotland from qualitative work with young people', *Parliamentary Affairs*, 74(3), 563-580.

Jerome, L., Sant, E., Britton, A., Emerson, L., James, S., & Milliken, M. (2022). 'Citizenship Education in the United Kingdom: Comparing England, Northern Ireland, Scotland and Wales', *Journal of Social Science Education* 21(4).

Keating, A., & Melis, G. (2017). 'Social media and youth political engagement: Preaching to the converted or providing a new voice for youth?', *The British Journal of Politics and International Relations*, 19(4), 877-894.

Mathias, M. (2020). *Teaching politics in our schools should be a necessity not an option.* Electoral Reform Society Cymru. Ar gael yn: https://www.electoral-reform.org.uk/teaching-politics-in-our-schools-shouldbe-a-necessity-not-an-option/

Moore, D., Seargeant, P., & Smith, D. (2022). *Citizens' voices, people's news: making the media work for Wales. An IWA report, in partnership with The Open University in Wales*. Sefydliad Materion Cymreig. Ar gael yn: https://www.iwa.wales/our-work/work/citizens-voices-media-wales-report/

Moore, D. (2023). *Building Bridges: Wales' democracy now, and for our future*. Sefydliad Materion Cymreig. Ar gael yn: https://www.iwa.wales/our-work/work/building-bridges-wales-democracy-now-and-for-our-future/

Moss, N. (2024). *Can proposed changes to the law increase voter turnout in Wales?* Ymchwil y Senedd, Senedd Cymru. Ar gael yn: https://research.senedd.wales/research-articles/can-proposed-changes-to-the-law-increase-voter-turnout-in-wales/

Nation.Cymru (2020). *Overwhelming support for giving more powers to the Senedd.* Ar gael yn: https://www.yes.cymru/support_for_giving_more_powers_to_senedd

Nation.Cymru (2023). *Welsh independence poll boost with surge amongst young people*. Ar gael yn: https://nation.cymru/news/welsh-independence-poll-boost-with-surge-amongst-young-people/

Norris, P. (2011). *Democratic deficit: Critical citizens revisited*. Cambridge: Cambridge University Press.

Pearce, S. (2019). 'Young people, place and devolved politics: perceived scale (s) of political concerns among under 18s living in Wales', *Social & Cultural Geography*, 20(2), 157-177.

Cymwysterau Cymru (2023). *Consultation outcomes by subject.* Ar gael yn: https://qualifications.wales/media/knaphlc0/consultation-outcomes-by-subject.pdf

Scully, R. (2013). *Attitudes of Young People Towards Devolution in Wales: Paper prepared by Prof Roger Scully for Ein Dyfodol*. Ar gael yn: http://www.law.cardiff.ac.uk/ukcu/papers/05/Attitudes%20Young%20People%20Towards%20Devolution.pdf

The Electoral Commission. (2022*). Young voters in Wales need more support to engage in elections.* Ar gael yn: https://www.electoralcommission.org.uk/media-centre/young-voters-wales-need-more-support-engage-elections

The Open University (2022). *Introduction to making political and social change*. Ar gael yn: https://www.open.edu/openlearn/society-politics-law/introduction-making-political-and-social-change

Uberoi, E., & Johnston, N. (2022*). Political disengagement in the UK: Who is disengaged? House of Commons Library.* Ar gael yn: https://researchbriefings.files.parliament.uk/documents/CBP-7501/CBP-7501.pdf

Weinberg, J., & Flinders, M. (2019). 'Improving Citizenship Education'. Yn: H. Tam (ed.) *Whose Government Is It? The Renewal of State-Citizen Cooperation*. Bristol: Bristol University Press, 177-194.

Atodiad: cwestiynau'r arolwg

- Ydych chi'n credu ei bod yn bosibl i bobl gyffredin greu newid gwleidyddol neu gymdeithasol go iawn drwy Senedd y DU? (ydw/na/ddim yn siŵr)

- Ydych chi'n credu ei bod yn bosibl i bobl gyffredin greu newid gwleidyddol neu gymdeithasol go iawn drwy Senedd Cymru? (ydw/na/ddim yn siŵr)

- Ydych chi'n deall beth mae 'dinasyddiaeth weithgar' yn ei olygu? (ydw/na/ddim yn siŵr)

- Os ateboch chi 'na' neu 'ddim yn siŵr', darllenwch y diffiniad hwn o ddinasyddiaeth weithgar: "Dinasyddiaeth weithgar yw'r syniad y gall rhywun fod yn ddinesydd gwleidyddol gweithgar; gallant fynd ati i geisio creu newid" Ydych chi nawr yn deall beth mae 'dinasyddiaeth weithgar' yn ei olygu? (ydw/na/ddim yn siŵr)

- Pa mor hyderus ydych chi o ran deall sut i greu newid gwleidyddol a chymdeithasol drwy Senedd y DU? [graddfa o 1-5, lle mai 1 yw ddim yn hyderus a 5 yw hyderus iawn: 1 (ddim yn hyderus), 2 (ychydig yn hyderus), 3 (rhywfaint yn hyderus), 4 (gweddol hyderus), 5 (hyderus iawn)

- Os dewisoch chi 1 neu 2, pam nad ydych chi'n hyderus? Dewiswch y rhai sy'n berthnasol [Dydw i ddim yn deall sut mae Senedd y DU yn gweithio (h.y., sut mae'n deddfu), dydw i ddim yn deall pa faterion/meysydd/cyfraith mae Senedd y DU yn eu cwmpasu, dydw i ddim yn gwybod â phwy/ble i gysylltu, Arall]

- Os 'Arall' oedd eich ateb, rhowch ragor o fanylion [blwch testun rhydd]

- Pa mor hyderus ydych chi o ran deall sut i greu newid gwleidyddol a chymdeithasol drwy Senedd Cymru? [graddfa o 1-5, lle mai 1 yw ddim yn hyderus a 5 yw hyderus iawn: 1 (ddim yn

hyderus), 2 (ychydig yn hyderus), 3 (rhywfaint yn hyderus), 4 (gweddol hyderus), 5 (hyderus iawn)

- Os dewisoch chi 1 neu 2, pam nad ydych chi'n hyderus? Dewiswch y rhai sy'n berthnasol [Dydw i ddim yn deall sut mae Senedd Cymru yn gweithio (h.y., sut mae'n deddfu), dydw i ddim yn deall pa faterion/meysydd/cyfraith mae Senedd Cymru yn eu cwmpasu, dydw i ddim yn gwybod â phwy/ble i gysylltu, Arall]

- Os 'Arall' oedd eich ateb, rhowch ragor o fanylion [blwch testun rhydd]

- Gallwch hefyd geisio creu newid y tu allan i brosesau/ymgysylltiad seneddol ffurfiol, fel drwy ymgyrchu'n lleol, codi ymwybyddiaeth ar y cyfryngau cymdeithasol, neu greu deiseb. Pa mor hyderus ydych chi wrth ddeall sut i wneud newid gwleidyddol a chymdeithasol fel hyn? [graddfa o 1-5, lle mai 1 yw ddim yn hyderus a 5 yw hyderus iawn: 1 (ddim yn hyderus), 2 (ychydig yn hyderus), 3 (rhywfaint yn hyderus), 4 (gweddol hyderus), 5 (hyderus iawn)

- Wnaethoch chi ddysgu am sut i greu newid gwleidyddol a chymdeithasol yn yr ysgol uwchradd? [do/na/ddim yn siŵr]

- Os ateboch chi 'do', pa mor ddefnyddiol oedd hynny i chi o ran deall sut i greu newid gwleidyddol a chymdeithasol drwy Senedd y DU? [graddfa o 1-5, lle mai 1 yw ddim yn ddefnyddiol a 5 yw defnyddiol iawn: 1 (ddim yn ddefnyddiol), 2 (ychydig yn ddefnyddiol), 3 (rhywfaint yn ddefnyddiol), 4 (gweddol ddefnyddiol), 5 (defnyddiol iawn)

- Os ateboch chi 'do', pa mor ddefnyddiol oedd hynny i chi o ran deall sut i greu newid gwleidyddol a chymdeithasol drwy Senedd Cymru? [graddfa o 1-5, lle mai 1 yw ddim yn ddefnyddiol a 5 yw defnyddiol iawn: 1 (ddim yn ddefnyddiol), 2 (ychydig yn ddefnyddiol), 3 (rhywfaint yn ddefnyddiol), 4 (gweddol ddefnyddiol), 5 (defnyddiol iawn)

- Os ateboch chi ‘do’, pa mor ddefnyddiol oedd hynny i chi o ran deall sut i greu newid gwleidyddol a chymdeithasol y tu allan i Senedd y DU / Senedd Cymru? (e.e., drwy ymgyrch leol neu gyfryngau cymdeithasol?) [graddfa o 1-5, lle mai 1 yw ddim yn ddefnyddiol a 5 yw defnyddiol iawn: 1 (ddim yn ddefnyddiol), 2 (ychydig yn ddefnyddiol), 3 (rhywfaint yn ddefnyddiol), 4 (gweddol ddefnyddiol), 5 (defnyddiol iawn)

- Efallai eich bod wedi dysgu sut i greu newid gwleidyddol a chymdeithasol mewn ffyrdd eraill. Dewiswch y rhai sy'n berthnasol [Gan deulu, gan ffrindiau, gan gyflogwr/hyfforddwr, gan sefydliadau gwleidyddol neu ymgyrchu, gan gyfryngau traddodiadol (papurau newydd/teledu), ar gyfryngau cymdeithasol, gan addysg bellach (e.e. coleg/chweched dosbarth), gan addysg uwch (e.e. prifysgol), Arall

- Os 'Arall' oedd eich ateb, rhowch ragor o fanylion [blwch testun rhydd]

- Os gwnaethoch chi ddewis ‘cyfryngau cymdeithasol’, pa fathau o gyfryngau cymdeithasol? Dewiswch y rhai sy’n berthnasol [Twitter, Instagram, Facebook, Tik Tok, arall]

- Os 'Arall' oedd eich ateb, rhowch ragor o fanylion [blwch testun rhydd]

- Os ateboch chi ‘cyfryngau cymdeithasol’, pa mor ddefnyddiol oedd hynny i chi o ran deall sut i greu newid gwleidyddol a chymdeithasol drwy Senedd y DU? [graddfa o 1-5, lle mai 1 yw ddim yn ddefnyddiol a 5 yw defnyddiol iawn: 1 (ddim yn ddefnyddiol), 2 (ychydig yn ddefnyddiol), 3 (rhywfaint yn ddefnyddiol), 4 (gweddol ddefnyddiol), 5 (defnyddiol iawn)

- Os ateboch chi ‘cyfryngau cymdeithasol’, pa mor ddefnyddiol oedd hynny i chi o ran deall sut i greu newid gwleidyddol a chymdeithasol drwy Senedd Cymru? [graddfa o 1-5, lle mai 1 yw ddim yn ddefnyddiol a 5 yw defnyddiol iawn: 1 (ddim yn ddefnyddiol), 2 (ychydig yn ddefnyddiol), 3 (rhywfaint yn ddefnyddiol), 4 (gweddol ddefnyddiol), 5 (defnyddiol iawn)

- Os ateboch chi ‘cyfryngau cymdeithasol’, pa mor ddefnyddiol oedd hynny i chi o ran deall sut i greu newid gwleidyddol a chymdeithasol y tu allan i Senedd y DU / Senedd Cymru? (e.e., drwy ymgyrch leol neu gyfryngau cymdeithasol?) [graddfa o 1-5, lle mai 1 yw ddim yn ddefnyddiol a 5 yw defnyddiol iawn: 1 (ddim yn ddefnyddiol), 2 (ychydig yn ddefnyddiol), 3 (rhywfaint yn ddefnyddiol), 4 (gweddol ddefnyddiol), 5 (defnyddiol iawn)

- Ydych chi erioed wedi ymgysylltu â Senedd y DU wrth geisio creu newid gwleidyddol neu gymdeithasol? (e.e. drwy ysgrifennu at eich Aelod Seneddol neu drwy greu neu lofnodi deiseb seneddol) [do/na/ddim yn siŵr]

- Os mai ‘do’ oedd eich ateb, beth wnaethoch chi? Dewiswch y rhai sy’n berthnasol [Cysylltu ag Aelod Seneddol, Cysylltu ag aelod o Dŷ’r Arglwyddi, Cyflwyno tystiolaeth i Bwyllgor Dethol, Cysylltu â Grŵp Seneddol Hollbleidiol, Llunio deiseb, Llofnodi deiseb, Arall]

- Os 'Arall' oedd eich ateb, rhowch ragor o fanylion [blwch testun rhydd]

- Os ateboch chi ‘do’, a wnaethoch chi gyflawni eich nod? [do/na/ddim yn siŵr]

- Ydych chi erioed wedi ymgysylltu â Senedd Cymru wrth geisio creu newid gwleidyddol neu gymdeithasol? (e.e. drwy ysgrifennu at eich Aelod Seneddol neu drwy greu neu lofnodi deiseb seneddol) [do/na/ddim yn siŵr]

- Os mai ‘do’ oedd eich ateb, beth wnaethoch chi? Dewiswch y rhai sy’n berthnasol [Cysylltu ag Aelod o’r Senedd, Cyflwyno tystiolaeth i bwyllgor, Cysylltu â Grŵp Trawsbleidiol, Creu deiseb, Llofnodi deiseb, Arall]

- Os 'Arall' oedd eich ateb, rhowch ragor o fanylion [blwch testun rhydd]

- Os ateboch chi ‘do’, a wnaethoch chi gyflawni eich nod? [do/na/ddim yn siŵr]

- Ydych chi erioed wedi ceisio creu newid gwleidyddol a chymdeithasol y tu allan i Senedd y DU (e.e. drwy ymgyrchu'n lleol, codi ymwybyddiaeth ar y cyfryngau cymdeithasol, neu greu deiseb)? [do/na/ddim yn siŵr]

- Os mai 'do' oedd eich ateb, beth wnaethoch chi? Dewiswch y rhai sy'n berthnasol [Wedi cysylltu/wedi lobïo cyngor lleol, Codi ymwybyddiaeth drwy gelf/cerddoriaeth, Cymryd rhan mewn gweithredu ar y cyfryngau (gan gynnwys cyfryngau cymdeithasol), Ysgrifennu/cyhoeddi rhywbeth i godi ymwybyddiaeth/ymgyrchu, Wedi lobïo rhywun â dylanwad, Cymryd rhan mewn gweithredu economaidd (h.y., boicotio cwmni), Cymryd rhan mewn protest/arddangosiad heddychlon, Wedi gwneud rhywbeth yn y gymuned leol, Wedi creu/llofnodi deiseb anseneddol (e.e., 38 Degrees, Change.Org), Arall]

- Os 'Arall' oedd eich ateb, rhowch ragor o fanylion [blwch testun rhydd]

- Pa rinweddau sydd eu hangen ar rywun sy'n anelu at greu newid gwleidyddol neu gymdeithasol? Dewiswch eich pump uchaf (rydym wedi darparu rhai diffiniadau i'ch helpu i ddeall). Dewiswch ddim mwy na 5 ateb: [Ymwybyddiaeth emosiynol ac empathi (gosod eich hun yn sefyllfa pobl eraill), Optimistiaeth (cadw'n bositif), Realaeth (bod yn realistig, deall beth sy'n bosibl), Sgiliau gwrando (gwrando ar eraill/eu barn), Sgiliau cyfathrebu (cyfathrebu mewn ffyrdd priodol), Pendantrwydd (bod yn gadarn drosoch eich hun), Meddwl strategol (pennu nodau tymor hir/sut i'w cyflawni), Canolbwyntio (bod â chanlyniadau clir, peidio a adael i bethau eraill fynd â'ch sylw), Gwytnwch (os yn wynebu siom, canolbwyntio o'r newydd a llunio strategaeth newydd), Hunan-gymell (y gallu i ysgogi eich hun i weithredu, Trefnu (sgiliau cynllunio a chofnodi da), Hyblyg (bod yn agored i newid), gallu weithio ag eraill, Creadigol (defnyddio dychymyg wrth ymgyrchu)]

- Pa fformat(au) fyddai fwyaf defnyddiol i chi ar gyfer dysgu am sut i greu newid gwleidyddol a chymdeithasol? Dewiswch y rhai sy'n berthnasol [Cwrs ar-lein, Llyfryn/taflen/testun ar-lein, Llyfryn/taflen/testun wedi'i argraffu/copi caled, Adnodd fideo, Adnodd sain (fel podlediad),

Gwefan gyda storfa o wybodaeth, nofel / adnodd graffig, ffrwd/ymgyrch cyfryngau cymdeithasol, Arall]

- Os 'Arall' oedd eich ateb, rhowch ragor o fanylion [blwch testun rhydd]

- Pa elfennau dylunio sy'n bwysig? Dewiswch y rhai sy'n berthnasol [Mae'r iaith yn hawdd i'w deall, Gellir ei ddarllen/ei chwblhau'n gyflym, Mae wedi'i dylunio'n dda (o ran arddull/cynllun). Mae'n rhyngweithiol (e.e. cwisiau a thasgau i'w cwblhau), Mae'n cynnwys amrywiaeth o ddulliau dysgu (er enghraifft, gweledol, clywedol, a rhyngweithiol), Mae'n cynnwys enghreifftiau/astudiaethau achos/delweddau amrywiol, Mae ar gael ar-lein, mae wedi'i argraffu/yn gallu cael ei argraffu, Mae ar gael mewn/wedi'i addasu ar gyfer amrywiaeth o fformatau (e.e. Ffôn, cyfrifiadur, tabled), Arall]
- Os 'Arall' oedd eich ateb, rhowch ragor o fanylion [blwch testun rhydd]

- Pa elfennau cynnwys sy'n bwysig? Dewiswch y rhai sy'n berthnasol [Esboniadau o sut mae sefydliadau gwleidyddol yn gweithio (e.e., prosesau Senedd y DU / Senedd Cymru), Esboniadau o faterion/meysydd/cyfreithiau y mae pob Senedd yn eu cwmpasu (e.e. Mae Senedd Cymru yn llunio cyfreithiau mewn meysydd datganoledig/polisi penodol, a Senedd y DU yn llunio deddfau mewn meysydd eraill), Esboniadau o bwy i gysylltu â nhw / ble i gysylltu (e.e. cysylltu â'ch Aelod Seneddol (y DU) ynghylch materion hyn, a'ch Aelod o Senedd Cymru am y materion acw), Canllawiau ar sut mae creu newid drwy ymgysylltiad seneddol (e.e. Megis ymgysylltu â phwyllgorau dethol neu gael cynrychiolydd etholiadol i ofyn cwestiwn), Canllawiau ar sut i geisio creu newid y tu allan i ymgysylltiad seneddol ffurfiol (e.e. Megis ymgyrchu'n lleol, codi ymwybyddiaeth ar gyfryngau cymdeithasol, neu greu deiseb), Rhinweddau sydd eu hangen i greu newid (e.e. Sut mae gweithio ag eraill), Dolen i adnoddau/gwybodaeth eraill (e.e. At adnoddau addysgol y Seneddau), Arall]

- Os 'Arall' oedd eich ateb, rhowch ragor o fanylion [blwch testun rhydd]

- Pa mor gyflym ddylech chi allu darllen/gwylio/ymgysylltu â'r adnodd? [Llai na 5 munud, 5-10 munud, 10-20 munud, 20-30 munud, 30-60 munud, 1-2 awr, Dros 2 awr)

Nodiadau:

- Gofynnwyd amrywiaeth o gwestiynau am gydsyniad a demograffeg i'r rhai a ymatebodd i'r arolwg hefyd, a byddwn yn edrych yn fanylach ar y rhain mewn cyhoeddiadau academaidd dilynol
- Roedd yr arolwg marchnata allanol yn gofyn yr un cwestiynau yn fras ond yn achlysurol gyda mân newidiadau i'r geiriad neu mewn trefn wahanol, i gyd-fynd â fformat yr arolwg a ddefnyddiwyd/tîm yr arolwg. Nid oedd yr arolwg marchnata allanol chwaith yn gofyn y cwestiynau dylunio oherwydd amseriad yr arolwg mewn perthynas â dylunio/creu adnoddau addysgol.

The Open University
Y Brifysgol Agored
Wales Cymru